Department of Energy & Climate Change

# Ymateb y Llywodraeth i'r Ymgynghoriad

Adolygu'r Broses o Leoli Cyfleuster Gwaredu Daearegol

Gorffennaf 2014

© Hawlfraint y Goron 2014

URN 14D/236

Gellir ailddefnyddio'r wybodaeth hon (ac eithrio'r logos) yn ddi-dâl mewn unrhyw fformat neu gyfrwng, o dan amodau'r Drwydded Llywodraeth Agored.

I gael golwg ar y drwydded hon, ymwelwch â www.nationalarchives.gov.uk/doc/open-government-licence/ neu ysgrifennwch at y Tîm Polisi Gwybodaeth / Inforrmation Policy Team, Yr Archifau Gwladol / The National Archives, Kew, Llundain / London TW9 4DU, neu e-bostiwch: psi@nationalarchives.gsi.gov.uk.

Dylid anfon unrhyw ymholiadau ynglŷn â'r cyhoeddiad hwn at ond@decc.gsi.gov.uk

# Ymateb y Llywodraeth i'r ymgynghoriad

## Cyflwyniad

1. Yn ystod 2013, cynhaliodd yr Adran Ynni a Newid Hinsawdd (DECC) ymgynghoriad cyhoeddus ynghylch diwygio'r broses o leoli cyfleuster gwaredu daearegol (CGD). Gellir darllen y ddogfen ymgynghorol lawn ar lein[1]. Pwrpas yr ymgynghoriad oedd holi barn ynghylch ffyrdd o ddiwygio a gwella rhai agweddau ar y broses o leoli CGD, tra'n dal i ffafrio proses yn seiliedig ar ymgysylltu â chymunedau sy'n barod i gymryd rhan.

2. Datblygwyd y cynigion yn yr ymgynghoriad drwy ystyried profiad o'r broses flaenorol (fel y nodir yn y Papur Gwyn yn 2008 o'r enw Managing Radioactive Waste Safely[2]), ynghyd â rhagor o ymgysylltu â rhanddeiliaid ar lefel genedlaethol a chais cyhoeddus am dystiolaeth ddechrau 2013.

3. Roedd y ddogfen ymgynghori'n gofyn cyfres o gwestiynau am gynigion y Llywodraeth, oedd yn cynnwys y meysydd a ganlyn:

   - **Penderfyniadau a swyddogaethau** fel rhan o'r broses leoli, gan gynnwys cynnig ar gyfer cael prawf uniongyrchol o gefnogaeth y cyhoedd cyn mynd ymlaen i adeiladu CGD;
   - **Gofynion technegol o ran cyflenwi'r CGD**, gan gynnwys gwybodaeth ddaearegol, rhestr wastraff ar gyfer ei waredu a materion mewn perthynas â chynllunio defnydd tir
   - Ymrwymo **Cymunedau**, gan gynnwys cynrychiolaeth, buddiannau ac effeithiau ac asesiadau cymdeithasol-economaidd.

4. Lansiwyd yr ymgynghoriad ar 12 Medi 2013 ac roedd yn cau yn ffurfiol ar 5 Rhagfyr 2013[3].

5. Cyhoeddwyd yr ymgynghoriad ar lein. Roedd modd i'r cyhoedd ymateb drwy offeryn ymateb ar lein a ddarparwyd drwy e-bost a drwy'r post. Cynhaliodd DECC we-sgwrs i ateb cwestiynau am gynigion yr ymgynghoriad, ynghyd â nifer o ddigwyddiadau ymgysylltu ledled y wlad.

**Digwyddiadau ymgynghori**

I gefnogi ei ymgynghoriad, cynhaliodd DECC 15 o ddigwyddiadau ymgysylltu yn ystod Tachwedd a Rhagfyr 2013, ar draws Cymru a Lloegr. Roedd y digwyddiadau hyn yn cynnwys gweithdai ymgynghori â chynrychiolaeth eang o blith y cyhoedd.

---

[1] http://bit.ly/1ihUggo

[2] http://bit.ly/13LFztm

[3] Oherwydd problem dechnegol mewn perthynas ag un o'r cyfeiriadau e-bost a restrwyd yn y ddogfen ymgynghori, roedd ymatebion a gyflwynwyd drwy e-bost (yn wahanol i'r rheiny drwy'r post neu'r ffurflen ar lein) hefyd yn cael eu derbyn hyd at 19 Rhagfyr 2013.

Cynlluniwyd yr holl ddigwyddiadau i helpu mynychwyr i archwilio a deall goblygiadau cynigion yr ymgynghoriad, i helpu'r Llywodraeth i gael adborth ar y rhain, ac i gynorthwyo cyfranogwyr i ddatblygu eu hymatebion eu hunain i'r ymgynghoriad. Yn ogystal, nod y digwyddiadau cyhoeddus oedd helpu'r Llywodraeth i gael dealltwriaeth o lefel yr ymwybyddiaeth ymhlith y cyhoedd o waredu daearegol.

Tra bod yr adborth a gafwyd yn ystod y digwyddiadau'n ategu'r ymgynghoriad, ni chawsant eu derbyn fel ymatebion ffurfiol i'r ymgynghoriad. Roedd DECC yn annog yr holl fynychwyr i gyflwyno ymatebion ffurfiol yn ogystal.

Gallwch ddarllen adroddiadau o bob digwyddiad ar lein[4].

Mae'r Llywodraeth wedi ystyried ac adlewyrchu'r themau allweddol a godwyd yn y digwyddiadau wrth ddatblygu'r Papur Gwyn diwygiedig hwn. Rhai o'r themau oedd yn codi dro ar ôl tro oedd: pwysigrwydd darparu mwy o wybodaeth i gymunedau yn gynnar yn y broses; yr anhawster cynhenid o ran penderfynu pwy sy'n cynrychioli cymuned ond yr angen i fod yn fwy pendant am hynny; ynghyd ag angen i fod yn gliriach am fuddsoddi yn y gymuned a sut y bydd yn cael ei ddiffinio a'i weinyddu.

6. Cafwyd cyfanswm o 719 o ymatebion i'r ymgynghoriad, yr oedd 301 ohonynt yn rhan o ymgyrch lythyrau. Mae'r holl ymatebion i'r ymgynghoriad ar gael i'w darllen ar lein[5].

7. Fe ddadansoddwyd yr ymatebion hyn yn 12 categori o ymatebwyr: Academia a Chymdeithasau Dysgedig; Unigolion a'r Gymdeithas; Llywodraethau Rhyngwladol a Thiriogaethau Dibynnol ar y Goron; Cyrff Rhyngwladol (gan gynnwys cyrff Rheoli Gwastraff); Llywodraeth Leol; Cyrff Anllywodraethol Lleol; Cyrff Anllywodraethol Cenedlaethol; Anhysbys; Aelodau Seneddol, Cynghorwyr a Phleidiau Gwleidyddol; Rheoleiddwyr, y Pwyllgor ar Reoli Gwastraff Ymbelydrol (CoRWM) a chyrff sector cyhoeddus eraill; Undebau Llafur, a Busnesau yn y DU. Nodir niferoedd yr ymatebion ym mhob un o'r categorïau yn y tabl isod.

| **Categorïau'r Ymatebwyr** | **Nifer yr Ymatebion** | **Y ganran o'r cyfanswm** |
|---|---|---|
| Academia a Chymdeithasau Dysgedig | 11 | 3% |
| Unigolion a'r Gymdeithas | 530 | 74% |
| Llywodraethau Rhyngwladol a Thiriogaethau Dibynnol ar y Goron | 2 | <1% |
| Cyrff Rhyngwladol | 1 | <1% |
| Llywodraeth Leol | 94 | 13% |
| Cyrff Anllywodraethol Lleol | 22 | 3% |

[4] http://bit.ly/1fCtrlQ
[5] http://bit.ly/1fCtrlQ

| | | |
|---|---|---|
| Cyrff Anllywodraethol Cenedlaethol | 7 | 1% |
| Heb Ddatgan | 3 | <1% |
| Aelodau Seneddol, Cynghorwyr a Phleidiau Gwleidyddol | 12 | 2% |
| Rheoleiddwyr, CoRWM a chyrff sector cyhoeddus eraill | 7 | <1% |
| Undebau Llafur | 2 | <1% |
| Busnesau | 28 | 4% |
| **Cyfanswm** | **719** | **100%** |

**Ymatebion i’r ymgynghoriad yn ôl categori - efallai na fydd y cyfansymiau’n gyflawn oherwydd y dulliau talgrynnu a ddefnyddir**

8. Mae’r hyn sy’n dilyn yn grynodeb lefel uchel o’r ymatebion hyn i’r ymgynghoriad ynghyd ag ymateb Llywodraeth y DU i’r rhain, a drefnir o dan bob un o gwestiynau’r ymgynghoriad.

9. Wrth adrodd ynghylch yr ymateb cyffredinol i bob cwestiwn, mae ‘mwyafrif’ yn golygu barn glir mwy na 50% o’r ymatebwyr mewn ymateb i’r cwestiwn hwnnw, ac mae ‘lleiafrif’ yn golygu llai na 50%. Mae ‘tua hanner’ yn golygu ymateb cyffredinol o fewn ychydig o bwyntiau canran o 50% (y naill ffordd neu’r llall).

10. Defnyddiwyd y termau a ganlyn i grynhoi pwyntiau ychwanegol a godwyd yn yr ymatebion: mae ‘llawer’ o ymatebwyr yn golygu mwy na 70% o’r rheiny oedd yn ateb y cwestiwn dan sylw, mae ‘ychydig o ymatebwyr’ yn golygu llai na 30%, ac mae ‘rhai ymatebwyr’ yn cyfeirio at yr ystod rhwng 30% a 70%.

11. Yn yr adrannau ar ymateb y Llywodraeth, mae ‘ni’ yn cyfeirio at Lywodraeth y DU.

**Cwestiwn 1: A gytunwch y dylid cael prawf o gefnogaeth y cyhoedd cyn i’r awdurdod cynrychiolíadol golli ei Hawl Tynnu’n Ôl? Os felly, beth dybiwch chi fyddai’r ffordd fwyaf priodol o brofi barn y cyhoedd, a phryd ddylid gwneud hynny? Os nad ydych yn cytuno fod angen prawf o’r fath, eglurwch pam os gwelwch yn dda.**

## Crynodeb o’r Ymatebion i gwestiwn 1

12. Roedd y mwyafrif o’r ymatebwyr i’r cwestiwn hwn yn cytuno neu’n cytuno’n rhannol y dylid cael prawf o gefnogaeth y cyhoedd cyn i ddarpar gymuned lleoli safle ildio’i hawl tynnu’n ôl o’r broses o ddewis lleoliad ar gyfer CGD, er bod barnau’n gymysg o ran sut y dylid gwneud hyn. Y prif resymau a roddwyd gan y rheiny oedd yn cytuno â’r cynnig oedd y byddai hyn yn sicrhau fod y broses o ddewis lleoliad yn ddemocrataidd ac y byddai’n cefnogi’r broses o wneud penderfyniadau gan awdurdodau lleol.

13. Awgrymodd rhai ymatebwyr y dylid cael prawf o gefnogaeth y cyhoedd yn gynnar yn y broses leoli er mwyn darparu cefnogaeth dryloyw i'r broses leoli fynd yn ei blaen yn yr ardal honno. Cynigiwyd y dylid cael y prawf cynnar hwn yn lle (neu, yn ôl mwy o ymatebwyr, yn ogystal â) prawf hwyrach, terfynol o gefnogaeth i leoli CGD. Cynigiodd ymatebwyr eraill wahanol adegau posibl ar gyfer cynnal prawf o gefnogaeth y cyhoedd yn ystod o broses o ddewis safle.

14. O'r rheiny a gyflwynodd sylwadau ar yr union ddull o brofi cefnogaeth y cyhoedd, mynegodd sawl un y farn y dylid gwneud hyn drwy refferendwm - er bod nifer o'r ymatebion hyn hefyd yn cydnabod y risg bosibl o gael canlyniad wedi ei ogwyddo os mai nifer fechan sy'n pleidleisio mewn refferendwm. Awgrymodd ychydig ohonynt y byddai polau piniwn neu arolygon yn fwy priodol, gan na fyddai'r rhain mor agored i effeithiau niferoedd bach o bleidleiswyr. Roedd gweddill yr ymatebwyr a wnaeth sylwadau ar y dull o brofi cefnogaeth y cyhoedd yn cynnig y byddai digwyddiadau neu ymchwil ymgynghorol yn fodd o ganfod barn cymunedau, o ystyried yr ystod gymhleth o faterion sy'n gysylltiedig â datblygu cyfleuster gwaredu daearegol.

15. O ran ardal ddaearyddol, cynigiodd ychydig o ymatebwyr i'r cwestiwn hwn y dylid profi cefnogaeth y cyhoedd dros sir neu ardal fwy er mwyn ystyried effeithiau ehangach lleoli CGD. Cymerodd ychydig o ymatebwyr safbwynt arall, gan gynnig y dylid profi cefnogaeth ar lefel plwyf neu ddosbarth, am y rheswm mai'r gymuned agosaf i'r safle dewisedig fyddai'n cael ei heffeithio fwyaf ganddo. Roedd ychydig o ymatebwyr yn dadlau y dylid profi cefnogaeth ar fwy nag un lefel, er mwyn ystyried y ddau ffactor yma. Dywedodd ychydig o ymatebwyr y dylai cwmpas unrhyw brawf o gefnogaeth y cyhoedd gael ei yrru gan effeithiau a buddion posibl, yn hytrach na ffiniau gweinyddol neu wleidyddol presennol.

16. Tra'r oedd ychydig o ymatebwyr yn teimlo bod angen diffinio'r broses o bennu cefnogaeth y cyhoedd yn fuan mewn proses leoli ddiwygiedig, teimlai rhai eraill y byddai hyn yn gynamserol o ystyried amserlenni'r broses leoli a / neu'r angen i adael i gymunedau lleol eu hunain benderfynu ar y broses hon neu ddylanwadu arni.

## Ymateb y Llywodraeth

17. Cytunwn â barn y mwyafrif fod angen prawf o gefnogaeth y cyhoedd cyn bod darpar gymuned leoli safle yn ymrwymo i fod yn lleoliad CGD a chyn y gellir mynd ymlaen i ddatblygu CGD. Mae hyn yn sylfaenol i sicrhau bod y gymuned yn wirioneddol gefnogi'r penderfyniad i fynd ymlaen â'r datblygiad mewn ardal, heb ofyn iddynt gyfiawnhau'r penderfyniad hwnnw ar sail unrhyw feini prawf penodol. Mae'n fodd unigryw o fynd i'r afael â'r mater, sydd o bosib yn gosod gwneud penderfyniad ar CGD ar wahân i ddatblygu mathau eraill o seilwaith, drwy gynyddu lefel y gefnogaeth angenrheidiol cyn iddo fynd yn ei flaen. Felly, yn y Papur Gwyn newydd, rydym wedi ymrwymo i'r egwyddor na fydd datblygu CGD yn mynd yn ei flaen heb brawf cadarnhaol o gefnogaeth y cyhoedd. Fodd bynnag, dylid nodi, hyd yn oed lle mae cymuned yn cefnogi CGD mewn egwyddor, ni ellir ond mynd ymlaen i'w ddatblygu a'i weithredu ar ôl cael pob caniatâd cynllunio a rheoleiddiol (gan gynnwys mewn perthynas â materion diogelwch ac effeithiau'r datblygiad ar yr amgylchedd). Felly byddai unrhyw brawf o gefnogaeth y cyhoedd yn yr ardal honno'n ymwneud â barn y gymuned ar ddatblygu yn yr ardal honno – ond ni fyddai hynny ynddo'i hun ac ar ei ben ei hun yn gwarantu y gallai neu y byddai'r datblygiad yn mynd yn ei flaen.

18. Roedd ymatebion i'r ymgynghoriad yn ystyried gwahanol fecanweithiau posibl o ran sut y gellid cynnal prawf o gefnogaeth y cyhoedd, y mae i bob un ohonynt fanteision ac anfanteision posibl. Er enghraifft, tra bo refferenda yn fodd cadarn o gynhyrchu canlyniad 'pendant', mae iddynt hefyd y risg bosibl o ogwydd yn y canlyniad os mai dim ond nifer

fechan sy'n pleidleisio. Gall polau piniwn neu arolygon fod yn fwy cynrychioladol ac yn llai agored i ogwydd, ond nid oes cymaint o brofiad o'u defnyddio mewn prosesau penderfynu lleol. Byddai digwyddiadau neu ymchwiliadau ymgynghorol yn fodd mwy rhyngweithiol o fynd i'r afael â'r materion a'r cwestiynau cymhleth a godir gan ddatblygiad CGD, ond byddai angen gwneud llawer mwy o waith a dod i gytundeb ynghylch manylion ymarferol dull gweithredu o'r fath os ydynt am fod yn fodd credadwy o gefnogi proses o gynrychioli barn y gymuned ar lefel leol. Cafwyd ystod yr un mor eang o farnau mewn perthynas ag ardal ddaearyddol prawf o gefnogaeth y cyhoedd, yn enwedig o ystyried y gwahanol fathau o gymunedau a all gymryd rhan yn y broses.

19. Yr oedd nifer o ymatebwyr o'r farn y byddai'n gynamserol ar hyn o bryd i ddiffinio sut y byddai'r broses o bennu cefnogaeth y cyhoedd yn gweithio yn y dyfodol, yn enwedig gan na fyddai hyn yn cael ei roi ar waith am beth amser. Mae'n hanfodol i'r dull a ddewisir fod yn gredadwy, yn agored ac yn gynrychioladol, ac iddo fod yn seiliedig ar yr arfer orau ddiweddaraf o ran dulliau o brofi barnau cymunedau ar lefel leol. Ni chafwyd cytundeb clir ymhlith yr ymatebwyr i'r ymgynghoriad ynghylch yr hyn y dylai'r broses ei gynnwys a sut y dylid mynd ati i'w chyflawni. Gan ystyried yr holl bwyntiau hyn, ynghyd â'r ffaith na fydd y broses ffurfiol o weithio â chymunedau (fel y nodir yn y Papur Gwyn newydd) yn dechrau tan tua 2016, nid ydym yn credu ei fod yn ymarferol ac nid oes dymuniad ar hyn o bryd i bennu sut y bydd y prawf o gefnogaeth y cyhoedd yn cael ei gyflawni. Felly mae'r Papur Gwyn newydd yn nodi'r angen i sefydlu gweithgor i fynd i'r afael â chynrychiolaeth gymunedol, a fydd yn treulio mwy o amser yn ystyried y mater hwn. Bydd y grŵp hefyd yn ystyried materion eraill sy'n gysylltiedig â chynrychiolaeth gymunedol a chymorth ar gyfer hynny. Trwy'r broses hon bwriedir i'r broses ar gyfer cynrychiolaeth gymunedol fod wedi'i diffinio'n glir erbyn 2016.

20. Yn yr un modd, mae angen trafodaeth bellach ynghylch y cwestiwn pryd yn union y dylid cynnal y prawf o gefnogaeth y cyhoedd. Nodwn y teimlodd nifer o ymatebwyr y dylid cynnal prawf o gefnogaeth y cyhoedd yn fuan o fewn proses leoli newydd. Fodd bynnag, ystyriwn, trwy wneud hyn, y byddai risg o ofyn y cwestiwn ar adeg pan nad yw pobl wedi derbyn digon o wybodaeth am waredu daearegol neu eu bod yn ansicr am yr hyn y mae'n ei olygu ynghyd â / neu sut yn union y byddai'n effeithio eu hardal. Hwyrach na fyddai digon o wybodaeth ar gael am leoliad, dyluniad a goblygiadau penodol y safle, a thrwy ymrwymo i gynnal prawf o gefnogaeth y cyhoedd yn fuan mewn proses leoli newydd, gallai cymuned ganfod ei fod wedi ymrwymo i gynnig a fyddai'n cael ei newid yn nes ymlaen.

**Cwestiwn 2 - A gytunwch â'r newidiadau a awgrymir i'r trefniadau penderfynu o fewn y broses dewis safle MRWS? Os nad ydych yn cytuno, sut fyddech chi'n addasu'r dull gweithredu fesul cyfnod a awgrymir, neu pa ddull arall o weithredu a fyddech chi'n ei gynnig? Eglurwch eich rhesymeg os gwelwch yn dda.**

## Crynodeb o ymatebion i gwestiwn 2

21. Cafwyd barnau cymysg ynghylch a fyddai'n well cael proses leoli 'barhaus' yn hytrach nag un yn seiliedig ar gyfnodau a cherrig milltir gosodedig. Nodwyd y byddai proses barhaus yn sicrhau y byddai sylw'n cael ei roi i sicrhau bod cymunedau a effeithir yn cael gwybodaeth berthnasol, ac y byddai 'cyfnod dysgu' yn fuan yn y broses o gymorth i sicrhau bod digon o wybodaeth yn cael ei darparu o'r cychwyn cyntaf. I'r gwrthwyneb, teimlodd ychydig o ymatebwyr, heb bennu ymlaen llaw pryd fyddai penderfyniadau'n cael eu gwneud, na allai'r broses leoli fynd yn ei blaen heb lefel briodol o gefnogaeth gan y gymuned. Nododd ychydig ohonynt fod angen i'r broses ddangos yn glir beth oedd y

cyfnodau a phryd y byddai penderfyniadau’n cael eu gwneud er mwyn sicrhau bod y gymuned yn deall lle mae’r broses wedi’i gyrraedd, a sut mae hynny’n cymharu ag unrhyw gymunedau eraill a fu’n ymwneud â’r broses. Roedd ychydig o’r ymatebwyr yn benodol yn cefnogi’r cynnig i gymuned gael yr hawl i dynnu’n ôl drwy gydol y broses yn y gymuned honno, i sicrhau na fyddai cymunedau sy’n chwarae rhan yn y broses yn teimlo unrhyw bwysau i barhau i wneud hynny os na ddymunent wneud hynny mwyach.

22. Gwnaeth llawer o ymatebwyr sylwadau ar rolau yn y broses leoli, yn hytrach nag ar y broses ei hun. Cyfeirir at yr ymatebion a gafwyd ar y materion hyn o dan gwestiwn 2 o fewn y crynodeb o gwestiwn 3.

23. Nododd ychydig o ymatebwyr bwysigrwydd codi ymwybyddiaeth ar lefel genedlaethol fel rhan o’r broses benderfynu, gan gefnogi’r cynnig ar gyfer ymgyrch genedlaethol godi ymwybyddiaeth, a phwyso am fwy o bwyslais ar ymgysylltu â’r cyhoedd a rhanddeiliaid ar lefel ehangach o fewn y broses leoli. Roedd ychydig ohonynt yn dadlau bod angen cynnal unrhyw ymgyrch ymgysylltu dros amser hirach a chynnwys cymaint o wybodaeth berthnasol ag y bo modd (er enghraifft, cynnwys yr effeithiau ar gludiant ac iechyd). Awgrymodd rhai ymatebwyr, fel rhan o’r broses hon, y dylai’r Llywodraeth amlinellu a rhoi gwybodaeth am ‘feini prawf addasrwydd’ (gan gynnwys daeareg), gyda rhai yn awgrymu bod darparu’r wybodaeth hon yn flaenoriaeth - hynny yw, y dylid ei darparu cyn unrhyw wybodaeth am fuddion cymdeithasol-economaidd neu fuddsoddiad (neu, fel y trafodir o dan Gwestiwn 3, cyn i unrhyw gymunedau ymrwymo eu hunain i’r broses leoli’n ffurfiol).

## Ymateb y Llywodraeth

24. Rydym yn cydnabod yr angen am hawl parhaus i dynnu’n ôl o’r broses, ac yn credu nad oes angen cyfres o gerrig milltir gosodedig a allai, yn ymarferol, atal y datblygwr ac eraill rhag ymateb i gwestiynau neu bryderon o’r gymuned ar adeg eu codi. Mae hawl cymunedau i dynnu’n ôl o’r broses leoli – i roi terfyn ar drafodaethau ffurfiol â’r datblygwr – yn hawl a fydd yn parhau i fod yn nodwedd allweddol o’r broses leoli ddiwygiedig. Fodd bynnag, ein barn ni yw mai’r modd mwyaf effeithiol o ddiogelu hyn yw drwy ofyn am ganlyniad cadarnhaol i brawf o gefnogaeth y cyhoedd cyn gwneud unrhyw benderfyniadau terfynol ynghylch lleoli cyfleuster yn y gymuned dan sylw.

25. Fel y nodwyd yn y ddogfen ymgynghori, yn ymarferol roedd y pwyntiau penderfynu a grëwyd yn y broses leoli flaenorol, yn anfwriadol, yn rhwystrau artiffisial i ddarparu gwybodaeth i gymunedau, gan wanhau’r broses benderfynu yn y tymor hir. Gorllewin Cumbria oedd wedi mynd yn ei blaen bellaf drwy’r broses flaenorol honno. Fodd bynnag, roedd anhyblygrwydd y broses wedi creu sefyllfa lle’r oedd galw am ragor o wybodaeth am ddaeareg, ond nid oedd yn bosibl i’r datblygwr gyflawni’r gwaith pellach angenrheidiol ar ddaeareg leol hyd nes bod penderfyniad wedi’i wneud yn lleol i fynd ymlaen i’r cam nesaf. Rydym o’r farn y byddai proses o ymgysylltu priodol â’r gymuned yn galluogi datblygwr CGD i ystyried y cwestiynau y dymuna’r gymuned gael atebion iddynt mewn unrhyw drefn, ac na ddylid atal y datblygwr rhag gwneud hynny oherwydd galwadau artiffisial i gymunedau orfod ailymrwymo eu hunain yn barhaus cyn y gellir ymgymryd â gwaith a mynd i’r afael â phryderon.

26. Ein barn ni yw y bydd proses heb rwystrau artiffisial yn cefnogi, ac yn wir yn helpu i feithrin, dulliau mwy effeithiol o ymgysylltu â’r gymuned fel y mae trafodaethau am CGD yn mynd yn eu blaen, gyda’r wybodaeth angenrheidiol ar gael iddynt i’w cefnogi drwy’r broses er mwyn, yn y diwedd, dod i benderfyniad gwybodus ynghylch cytuno neu dynnu’n ôl.

27. Bydd y Papur Gwyn felly'n pennu'r angen i ymgymryd â phrawf o gefnogaeth y cyhoedd mewn cymuned, ac i'r canlyniad hwnnw fod yn un cadarnhaol, cyn y gellir mynd ymlaen i ddatblygu CGD yn y gymuned honno (gweler ymateb y Llywodraeth o dan Gwestiwn 1).

28. Cytunwn y bydd gwell eglurhad o ran sut y bydd y broses leoli'n gweithio hefyd yn helpu i sicrhau nad yw cymunedau sy'n chwarae rhan yn y broses yn dod o dan ormod o bwysau i ddod i gasgliadau pendant neu i ymrwymo eu hunain yn rhy gynnar. Mae hyn wedi llywio'r dull o fynd i'r afael â'r broses leoli newydd a nodir yn y Papur Gwyn newydd, yn nhermau'r camau buan y bydd y Llywodraeth a'r datblygwr yn ymgymryd â hwy mewn perthynas â'r dull o fynd ati i gynllunio defnydd tir yn Lloegr a chynnal ymarfer sgrinio daearegol cenedlaethol. Defnyddir yr amser a gymerir i ymgymryd â'r camau hyn i ystyried y cwestiwn o gynrychiolaeth gymunedol briodol yn fwy manwl.

29. Fel y nodir uchod (paragraff 19), rydym wedi penderfynu cymryd yr amser ychwanegol sydd ar gael i ofalu bod y broses o sicrhau cynrychiolaeth gymunedol yn briodol. Bydd gweithgor cynrychiolaeth gymunedol yn mynd ati i ystyried materion ymhellach. Ar wahân i hynny a nodir isod, ni ffurfiwyd unrhyw farn derfynol gennym ar hyn o bryd ynghylch materion a godwyd gan ymatebwyr, er enghraifft, mewn perthynas â pha haen neu haenau o lywodraeth leol a allai ac a ddylai weithredu fel cynrychiolwyr cymunedol, neu ar faterion eraill mewn perthynas â'r hyn a olygir gan gynrychiolaeth leol. Fe ddisgwyliwn i weld beth fydd canfyddiadau'r gweithgor.

30. Fodd bynnag, ar ôl ystyried yr ymatebion i'r ymgynghoriad, ein barn gychwynnol yw ei bod yn annhebygol y gall unrhyw un haen o lywodraeth leol weithredu neu y dylai weithredu fel yr unig awdurdod cynrychioli mewn proses leoli y mae'n rhaid iddi fod yn gymwys ar draws yr ystod o strwythurau llywodraeth leol sy'n bodoli trwy'r wlad. Yn y Papur Gwyn newydd, rydym wedi nodi ein barn y dylai pob haen o lywodraeth leol gael llais yn y broses o gynrychioli'r gymuned ond na ddylai fod yn bosibl i unrhyw un haen o lywodraeth leol atal rhai eraill rhag cymryd rhan yn y gymuned honno. Trafodir y mater hwn ymhellach yn ymateb y Llywodraeth i Gwestiwn 3.

**Cwestiwn 3 - A gytunwch â'r dull hwn o ddiwygio swyddogaethau o fewn y broses dewis safle a nodwyd yn y Papur Gwyn? Os ydych yn anghytuno, pa ddull gweithredu arall fyddech yn ei gynnig a pham?**

## Crynodeb o'r ymatebion i gwestiwn 3

31. Roedd y mwyafrif o'r ymatebwyr i'r cwestiwn hwn yn anghytuno â dull arfaethedig yr ymgynghoriad o fynd ati i adolygu rolau o fewn y broses leoli. Roedd ychydig o ymatebwyr yn dadlau, yn hytrach na dynodi un haen o lywodraeth leol fel yr 'awdurdod cynrychioladol', y dylai pob haen a effeithir o fewn llywodraeth leol chwarae rhan yn y broses benderfynu leol. Mynegodd ymatebwyr bryder penodol ynghylch rôl arfaethedig cynghorau dosbarth yn Lloegr, gydag ychydig ohonynt yn dadlau, oherwydd y gallai CGD rychwantu ffiniau cynghorau dosbarth, na ddylai'r haen hon o lywodraeth leol fod yn bennaf gyfrifol am arfer yr hawl tynnu'n ôl. Mewn perthynas â hyn, pwysleisiodd ychydig o ymatebwyr bwysigrwydd rôl cynghorau sir mewn penderfynu, gan nodi eu cyfrifoldebau penodol mewn perthynas â nifer o faterion perthnasol (gan gynnwys fel awdurdod cynllunio gwastraff).

32. Mynegodd ychydig o ymatebwyr gefnogaeth i'r cynnig y dylai'r Llywodraeth chwarae rôl fwy rhagweithiol mewn codi ymwybyddiaeth am waredu daearegol, gan nodi ar yr un pryd bod rhaid cyflwyno gwybodaeth mewn modd gwrthrychol. Roedd barnau'n gymysg ynghylch a ddylai'r Llywodraeth ei hun gael rôl mewn penderfynu, gydag ychydig o

ymatebwyr yn cwestiynu rolau arfaethedig y Llywodraeth a'r Awdurdod Datgomisiynu Niwclear ar y Grŵp Llywio lleol, gan ddadlau y gallai hyn arwain at wrthdaro buddiannau.

33. Cafwyd cefnogaeth gan ychydig o ymatebwyr i'r cynnig y dylai rheoleiddwyr chwarae rôl fwy rhagweithiol o ran egluro eu cyfrifoldebau. Yn ogystal, cafwyd cefnogaeth gyffredinol i gorff a allai wirio datganiadau technegol yn annibynnol yn ogystal â'u hadolygu gan gymheiriaid. Roedd sawl ymatebwr oedd wedi pennu corff arbennig yn galw am i rôl CoRWM gael ei hehangu i gynnwys y swyddogaeth hon.

34. Dywedodd ychydig o ymatebwyr i'r cwestiwn hwn y dylid cynnal chwiliad daearegol cyn i gymunedau lleol ddechrau ymwneud â'r broses leoli. Teimlodd ychydig o ymatebwyr bod rhaid diffinio'r term 'cymuned leoli' yn arbennig cyn penderfynu sut y gellid pennu rolau priodol.

35. Cafwyd gwahaniaeth barn o ran pwy ddylai fod yn gyfrifol am wneud penderfyniadau ar lefel leol. Roedd ychydig o ymatebwyr yn cytuno â'r cynnig mai'r cyngor dosbarth ddylai fod yr 'awdurdod cynrychioladol', gan roi sybsidiaredd a lleoliaeth fel y rhesymau, fel y nodir yn y ddogfen ymgynghorol. Ar y llaw arall, teimlai rhai ymatebwyr mai cynghorau sir oedd yn y sefyllfa orau i gynrychioli'r gymuned ac i ddal yr Hawl Tynnu'n Ôl a / neu teimlwyd y dylai Cynghorau Plwyf gael rôl yn y broses benderfynu y tu hwnt i hynny a gynigiwyd yn y ddogfen ymgynghorol. Teimlodd ychydig o'r ymatebwyr y dylai preswylwyr lleol gael chwarae rôl uniongyrchol yn y broses benderfynu.

36. Gofynnodd ychydig o ymatebwyr am eglurhad o ran pwy fyddai'n arwain y broses benderfynu leol pe bai safle'n ymestyn y tu hwnt i ffiniau un awdurdod lleol. Mewn perthynas â hyn, roedd rhai ymatebwyr yn dadlau y byddai cyfuniad o awdurdodau yn cynrychioli'r gymuned (neu gymunedau) a effeithir yn well, gan wneud y defnydd gorau o adnoddau presennol ynghyd â chyfrifoldebau a gwybodaeth leol awdurdodau. Gwnaeth rhai ymatebwyr sylwadau ar bwysigrwydd ymgynghori ar lefel leol fel rhan o'r broses benderfynu, er mwyn sicrhau proses ddemocrataidd. Teimlodd ychydig o ymatebwyr y dylid ymestyn y broses benderfynu tu hwnt i'r ardal leol a effeithir yn uniongyrchol gan fod hwn yn fater o ddiddordeb ar lefel genedlaethol.

37. Gwnaeth ychydig o ymatebwyr sylwadau ar aelodaeth arfaethedig y 'Grŵp Llywio' ac roeddynt yn amau'r rhan a chwaraeir gan y Llywodraeth a / neu'r datblygwr, gan gyfeirio at y budd a ddeilliai iddynt ohono yn ogystal â phosibilrwydd o wrthdaro buddiannau. Y sail resymegol y tu ôl i hyn yw y byddent yn dylanwadu'n ormodol ar y broses o ystyried eu diddordeb yn llwyddiant CGD. Roedd ychydig yn dadlau na ddylai'r 'awdurdod cynrychioladol' fod ar y Grŵp Llywio, os oedd yn gyngor dosbarth, oherwydd y budd iddynt hwy ohono.

38. Cyfeiriodd rhai ymatebion at bwysigrwydd annibyniaeth - p'un ai o ran recriwtio cadeirydd y Grŵp Llywio, adolygu adroddiadau technegol gan gymheiriaid, neu'r rhan a chwaraeir gan reoleiddwyr yng nghyswllt darparu barnau proffesiynol i gymunedau yn ystod y 'Cyfnod Dysgu' - er mwyn sicrhau ymddiriedaeth a hyder yn y penderfyniadau a wneir.

## Ymateb y Llywodraeth

39. Rydym wedi ystyried yr ymatebion yn ofalus ac wedi nodi bod y mwyafrif yn anghytuno â rôl arfaethedig y cynghorau dosbarth, yn ogystal â gwybodaeth a barnau a gyflwynwyd ynghylch pwysigrwydd ymrwymo'r cyhoedd ar draws a thu hwnt i wahanol strwythurau llywodraeth leol ffurfiol. Rydym yn cydnabod yr amryw fathau o gymunedau a strwythurau awdurdod lleol ledled y DU, a sylweddolwn nad yw cynllunio proses glir, unffurf ar gyfer cynrychioli cymunedau, y gellir ei weithredu drwy'r wlad, yn fater syml.

40. Yn wyneb y dystiolaeth honno, ystyriwn fod angen ystyried y mater yma ymhellach. Fodd bynnag, rydym yn ymwybodol o'r farn ei bod yn annhebygol y gall, neu y dylai, un haen o lywodraeth leol weithredu fel yr unig awdurdod cynrychioladol mewn proses leoli y mae'n rhaid ei gweithredu ar draws holl ystod strwythurau llywodraeth leol sy'n bodoli'n genedlaethol (gweler paragraff 30). Nodwyd ein barn yn y Papur Gwyn y dylai bob haen o lywodraeth leol gael llais yn y broses o gynrychioli'r gymuned, a hefyd na ddylai unrhyw haen o lywodraeth leol allu atal rhai eraill o'r gymuned honno rhag chwarae rhan.

41. Gan gofio hyn, a chan gydnabod y ffaith - o dan y cynigion diwygiedig - na ddisgwylir y bydd unrhyw broses sy'n caniatáu i gymunedau gymryd rhan yn dechrau cyn 2016, bwriadwn gynnal proses fwy cynhwysfawr i archwilio'r dewisiadau o ran fframwaith manwl newydd ar gyfer y broses ymgysylltu, gan weithio ag arbenigwyr ym maes penderfynu cymunedol. Mae'r Papur Gwyn newydd yn nodi cynllun ar gyfer cyflawni'r gwaith.

42. Mae ymatebion i'r ymgynghoriad hefyd wedi atgyfnerthu ein barn fod angen dull gweithredu mwy rhagweithiol ar gyfer codi ymwybyddiaeth mewn perthynas â gwaredu daearegol. Yn ystod y cyfnod cyn i drafodaethau ffurfiol â chymunedau ddechrau, bydd y datblygwr yn ymgymryd â gweithgareddau i egluro i'r cyhoedd y wyddoniaeth a'r beirianneg y tu ôl i waredu daearegol ynghyd â'i raglen, o fewn cyd-destun polisi'r Llywodraeth. Nod y gweithgareddau hyn fydd rhannu gwybodaeth a meithrin hinsawdd cefnogol ar gyfer trafodaethau ffurfiol â chymunedau i'r dyfodol ac, yn y tymor hir, gweithredu CGD yn llwyddiannus.

43. Nodwn y pryder a godwyd gan rai ymatebwyr mewn perthynas â rôl bosibl y Llywodraeth a / neu'r datblygwr yn y broses benderfynu gymunedol. Bydd y pryderon hyn, ynghyd â barnau a gwybodaeth arall, yn cael eu hystyried ymhellach fel rhan o'r gwaith a nodir ym mhennod 'Working with Communities' y Papur Gwyn newydd (Pennod 7). Fodd bynnag, mae'n glir y bydd rhaid i'r Llywodraeth a'r datblygwr gael rôl o ran ymgysylltu â chymunedau i ddarparu gwybodaeth, i ateb cwestiynau ac i fod yn atebol am eu cynlluniau a'u gweithgareddau arfaethedig. Yn y diwedd, bydd rhaid i'r datblygwr a'r Llywodraeth hefyd wneud penderfyniadau ynghylch gwariant a'r dewisiadau terfynol o ran y safleoedd a gaiff eu datblygu. Fodd bynnag, dylai'r rolau hyn weithredu'n gyfochrog â'r rhan a chwaraeir gan y gymuned.

44. Rydym hefyd yn cydnabod y rôl bwysig y mae'n rhaid i reoleiddwyr ei chwarae mewn unrhyw broses leoli – darparu gwybodaeth, a'r sicrwydd y bydd unrhyw CGD yn destun rheoleiddio cadarn ac annibynnol. Mae'r Papur Gwyn newydd yn ei gwneud yn glir y bydd rheoleiddwyr yn nodi eu gofynion yn eglur i'r datblygwr, ac i unrhyw gymunedau sy'n ystyried lleoli CGD, yn fuan yn y broses leoli ddiwygiedig.

45. Rydym yn cytuno â'r ymatebwyr oedd wedi galw am fodd o adolygu datganiadau technegol yn annibynnol. Mae'r Papur Gwyn newydd yn nodi'n glir ein bwriad i roi mecanwaith ar waith ar gyfer cymunedau, y datblygwr, a'r Llywodraeth ei hun, i gael mynediad agored at farn annibynnol gan drydydd partïon ar faterion arbennig o sensitif, cymhleth neu ddadleuol yn ystod proses leoli'r CGD. Tra bo llawer o ymatebwyr oedd wedi nodi corff arbennig i gyflawni'r rôl yn galw am gael ehangu rôl CoRWM i gyflawni'r swyddogaeth hon, ein barn ni yw y gallai gofyn i CoRWM ddarparu'r gwasanaeth yma effeithio ar eu pwrpas craidd, sef cyflawni gweithgareddau craffu a chyngor annibynnol i Lywodraethau'r DU ar reoli gwastraffau ymbelydrol actifedd uwch yn y tymor hir. Yn ogystal, ystyriwn ei bod yn ddymunol cael mynediad at gronfa hyblyg o arbenigwyr annibynnol, yn hytrach na phwyllgor a chanddo aelodaeth benodedig, er mwyn sicrhau bod barn arbenigol ar gael ar faterion arbenigol iawn a all godi yn ystod y broses leoli. Bydd manylion llawn o ran sut y gweithredir y broses hon yn cael eu datblygu fel rhan o drafodaethau parhaus ynghylch manylion y modd y bydd y Llywodraeth a'r datblygwr yn

gweithio â chymunedau. Fel y nodir yn y Papur Gwyn newydd, bydd y dull gweithredu hwn yn cael ei ddatblygu ymhellach mewn cysylltiad â'r cymdeithasau dysgedig, gyda golwg ar i'r mecanwaith yma fod yn ei le yn 2016, pryd y bydd y broses o weithio â chymunedau'n dechrau.

46. Mae galwadau am gynnal chwiliad daearegol cyn i gymunedau ymrwymo i'r broses wedi bwydo mewn i'r dull diwygiedig o gyflawni sgrinio daearegol ar lefel genedlaethol, a drafodir ymhellach yn ymateb y Llywodraeth o dan Gwestiwn 4.

47. Rhoddwyd ystyriaeth ofalus i'r mater o ddiffinio "cymuned", a sut i wneud hynny, ar yr adeg hon. Yn amlwg, mae'n anodd amlinellu proses ar gyfer ymrwymo'r gymuned a sianelu unrhyw fuddsoddiad cymunedol heb orfod diffinio'r termau hyn. Fodd bynnag, nid oedd ymatebion yr ymgynghoriad yn cynnig tystiolaeth helaeth o ran sut y gellid gwneud hyn (y tu hwnt i ddweud bod angen diffiniad a nodi beth allai'r gwahanol elfennau o gymuned fod). Mae hyn yn atgyfnerthu'r broblem y bydd y diffiniad bob amser yn cael ei bennu, i raddau, gan yr amgylchiadau arbennig dan sylw. Ymddengys na fydd yr hyn sy'n cael ei ystyried yn ddiffiniad rhesymol mewn un ardal yr un mor berthnasol mewn ardal arall (gweler hefyd ymateb y Llywodraeth ar fuddion cymunedol o dan gwestiwn 7).

48. Nid ydym ar hyn o bryd wedi dod i farn ynghylch yr hyn ydyw cymuned at ddibenion y Papur Gwyn newydd. Rhoir ystyriaeth bellach i'r mater yma fel rhan bwysig o'r gwaith ar gynrychiolaeth gymunedol sydd i'w ddatblygu ar ôl cyhoeddi'r Papur Gwyn (ac a ddisgrifir ym mharagraff 19).

**Cwestiwn 4 - A gytunwch â'r dull hwn o asesu addasrwydd daearegol fel rhan o broses dewis safle MRWS? Os ydych yn anghytuno, pa ddull gweithredu arall fyddech yn ei gynnig a pham?**

## Crynodeb o ymatebion i gwestiwn 4

49. Roedd tua hanner yr ymatebwyr i'r cwestiwn hwn yn anghytuno â'r dull o asesu addasrwydd daearegol. Roedd llawer o'r rheiny oedd yn anghytuno â'r dull arfaethedig yn galw am ddull mwy amlwg, rhagweithiol ar gyfer asesu daearegol yn fuan mewn unrhyw broses leoli ddiwygiedig.

50. Mynegodd rhai ymatebwyr y farn mai addasrwydd daearegol oedd y mater pwysicaf un o ran ystyried safle ar gyfer CGD, ac y dylid ymgymryd ag ymarfer sgrinio cenedlaethol ar ddechrau unrhyw broses leoli ddiwygiedig, i ganolbwyntio ar ardaloedd posibl o ddaeareg addas cyn chwilio am wirfoddolwyr.

51. O ran ardaloedd sydd wedi'u dynodi'n genedlaethol neu sy'n sensitif yn amgylcheddol, roedd rhai ymatebwyr yn galw am eu diystyru fel ardaloedd addas posibl o'r cychwyn. Mae ymatebion a wnaed ar y materion hyn yn cael eu hadlewyrchu o fewn crynodeb cwestiwn 8.

52. Cynigiodd ychydig o ymatebwyr y dylid defnyddio data Nirex blaenorol fel y sail ar gyfer chwilio, a / neu archwilio addasrwydd tir a berchnogir gan y Llywodraeth yn gyntaf.

53. O'r rheiny oedd yn anghytuno â'r dull gweithredu hwn, roedd llawer yn dadlau, yn achos Cumbria yn enwedig, y dylid ei heithrio o unrhyw ymgyrchoedd lleoli yn y dyfodol gan y teimlent y dangoswyd eisoes bod y ddaeareg leol yn anaddas. Roedd rhai o'r rheiny oedd yn anghytuno â'r dull gweithredu arfaethedig yn herio'r datganiad yn yr ymgynghoriad "nad oes y fath beth â'r ddaeareg orau neu fwyaf addas". Roedd ychydig o ymatebwyr yn pryderu hefyd y gellid defnyddio peirianneg i geisio goresgyn daeareg 'wael', gan eu bod o'r farn nad oedd dibynnu ar beirianneg dros y cyfnodau amser angenrheidiol wedi'i brofi, a'i fod yn debygol o fethu.

54. Tra bod nifer o ymatebwyr yn cefnogi cynnig y Llywodraeth i ddarparu adroddiadau cynnar ar ddaeareg ranbarthol, nododd ychydig ohonynt y dylid dehongli'r adroddiadau hyn mewn perthynas ag addasrwydd posibl ar gyfer CGD. Roedd ychydig o ymatebwyr o blaid cynnal adolygiad annibynnol o ddata daearegol gan gymheiriaid, fel rhan hanfodol o ennill ymddiriedaeth darpar gymunedau lleoli.

## Ymateb y Llywodraeth

55. Rydym yn cydnabod y dymuniad i roi ystyriaeth fwy amlwg a buan i ddaeareg yn y broses o ddewis safle. Tra nad oes un math 'gorau' o ddaeareg ar gyfer cyfleuster gwaredu, ac nid daeareg ei hun yw'r unig ystyriaeth o ran diogelwch, rydym o'r farn bod angen mynd i'r afael â'r mater hwn mewn modd agored a thryloyw a cheisio gwneud mwy i ddarparu gwybodaeth am y rhagolygon daearegol, ynghyd ag ymgysylltu ynghylch rôl daeareg mewn darparu prawf o ddiogelwch hirdymor.

56. Roedd nifer o ymatebwyr i'r ymgynghoriad yn amau'r datganiad yn yr ymgynghoriad "nad oes y fath beth â'r ddaeareg orau neu fwyaf addas" felly dymunwn fod yn glir ynghylch sut y daethpwyd i'r farn honno. Mae Asiantaeth yr Amgylchedd wedi cyhoeddi adroddiad helaeth[6] ar faterion technegol sy'n gysylltiedig â storfeydd dwfn mewn gwahanol amgylcheddau daearegol, adroddiad sy'n rhestru naw gwahanol fath generig o amgylchedd daearegol y gellid lleoli cyfleusterau ynddynt yn ddiogel. Yn rhyngwladol, mae cyfleusterau'n cael eu datblygu ar gyfer amryw fathau o wastraff mewn creigiau clai, mewn creigiau halen, mewn creigiau crisialog caled wedi'u hollti, a hyd yn oed mewn creigiau calchfaen tynn. Mae gwahanol fathau o wastraff a gwahanol ffurfiau o wastraff artiffisial yn arwain at ofynion gwahanol o ran rôl hirdymor daeareg mewn perthynas â diogelwch cyfleuster. Bydd angen gwell ynysiad cemegol i'r gwastraff mewn rhai cyfleusterau, bydd angen ynysu rhai mathau o wastraff yn ffisegol ac mewn rhai cyfleusterau bydd mwy o ddibyniaeth ar ddarparu gwarchodaeth syml i'r pecynnau a'r barieri peirianegol.

57. Mae'n glir o'r ymatebion i'r ymgynghoriad bod cryn gamdybiaeth ynghylch rôl daeareg a pheirianneg mewn canfod safle ar gyfer CGD. Yn ein barn ni, nid oes sail i'r ofn y gellir defnyddio peirianneg rhywsut i oresgyn daeareg 'beryglus'. Nid dyma yw rôl rhwystrau peirianegol. Mae bob CGD yn gyfuniad o beirianneg a daeareg. Mae'r gwahanol ddewisiadau o ran peirianneg wedi'u dylunio i weithio â gwahanol leoliadau daearegol, sydd yn eu tro'n diogelu'r beirianneg (pecynnau, ôl-lenwi, adeiladwaith y cyfleuster) ynghyd â'r gwastraff a gedwir y tu mewn i gyfleuster. Bydd y system aml-rwystr derfynol ar gyfer unrhyw safle'n cynnwys dylunio'r rhwystrau peirianegol sy'n cyd-fynd â'r lleoliad daearegol mewn modd a fydd yn sicrhau bod mathau arbennig o wastraff yn cael eu hynysu. Er enghraifft, mae'r cysyniad Swedaidd ar gyfer gwaredu gweddillion tanwydd niwclear yn dibynnu ar greigwely caled wedi hollti i ddiogelu'r ôl-lenwad clai a blychau copr sy'n eu galluogi i ynysu'r gweddillion tanwydd ar ffurf gwastraff solid ar gyfer y cyfnod angenrheidiol. Mewn cyferbyniad, mae'r cysyniad Ffrengig ar gyfer gwaredu yn dibynnu ar glai ag iddo lefel isel iawn o athreiddedd er mwyn rhwystro symudiad radioniwclidau i ffwrdd o'r twneli gwaredu, sy'n arwain i lai o ddibyniaeth ar y rhwystrau peirianegol yn y tymor hir. Mae'r ddau gysyniad yn cyflawni'r un amcan o ynysu gwastraff am dymor hir mewn gwahanol amgylcheddau.

58. O ystyried y galwadau cyson am ragor o wybodaeth ynghylch y mater hwn, ystyriwn y bydd proses agored sy'n datgelu natur y cwestiynau hyn ac sy'n dod i gasgliadau clir, yn help o ran ymgysylltu â'r cyhoedd fel eu bod yn fwy hyderus ac yn deall pethau'n well. Tra bydd yr hyn y gellir ei benderfynu gyda sicrwydd yn gyfyngedig ar ddechrau proses

[6] http://bit.ly/1mAhQac

leoli, o ystyried cyfyngiadau o ran y data sydd ar gael ynghyd â chyd-ddibyniaeth amryw ffactorau daearegol y mae'n rhaid eu profi mewn unrhyw safle, mae'n dal yn fanteisiol gofyn i arbenigwyr asesu'r posibiliadau ac ymgysylltu â'r cyhoedd ynghylch y mater hwn.

59. O dan y dull gweithredu a nodir yn y Papur Gwyn newydd, ymgymerir ag ymarfer sgrinio daearegol cenedlaethol i ddatblygu a chyflawni asesiad cynnar o bosibiliadau daearegol a fydd yn mynd i'r afael â chyfyngiadau'r wybodaeth sydd ar gael yn y cyfnod cynnar hwn. I ddechrau, bydd hyn yn cynnwys datblygu canllawiau sgrinio daearyddol ar lefel uchel, gan gynnwys ymgysylltu â'r cyhoedd ynghylch yr hyn y gellid ac y dylid ei gynnwys. Bydd y canllawiau hyn yn cael eu gweithredu wedyn er mwyn cynhyrchu asesiadau o'r rhagolygon cychwynnol ar gyfer datblygu achos diogelwch mewn gwahanol leoliadau ar draws y wlad. Bydd yr arweiniad lefel uchel a chasgliadau terfynol y gwaith yn destun adolygiad gan banel annibynnol. Mae Llywodraeth y DU wedi gofyn i Gymdeithas Ddaearegol Llundain[7] fod yn gyfrifol am oruchwylio'r gwaith o sefydlu'r panel adolygu annibynnol hwn. Cymdeithas Ddaearegol Llundain yw cymdeithas genedlaethol y DU ar gyfer gwyddorau daear, ac mae'n darparu ystod eang o gymorth proffesiynol a gwyddonol i dros 10,000 o Gymrodorion, y mae tua 2,000 ohonynt yn byw dramor.

60. Awgrymodd ychydig o ymatebwyr y dylid defnyddio data Nirex hanesyddol fel y sail i gynnal chwiliad am safle ar gyfer CGD. Fodd bynnag, nodwn nad oedd yr amryw archwiliadau a gynhaliwyd gan Nirex yn y 1980au a'r 1990au ond yn darparu data oedd yn canolbwyntio ar nifer fechan o safleoedd (fel Sellafield, Dounreay, Killingholme, a Bradwell) ac na fyddent yn addas fel y sail ar gyfer ymarfer cenedlaethol. NI chynhyrchodd Nirex ddata daearegol newydd yn genedlaethol na chymharu data cyfredol ar draws y wlad gyfan. Mae manylion hen broses Nirex, a ddechreuodd drwy ystyried set o 537 o safleoedd gosodedig posibl, ar gael yn gyhoeddus[8].

61. Byddai archwilio addasrwydd tir o eiddo'r Llywodraeth fel cam cyntaf yn strategaeth o'r brig i lawr sy'n debycach i hen broses Nirex. Ystyriwn nad yw hyn yn cyd-fynd â nodau gweithio mewn partneriaeth â chymunedau sy'n barod i gymryd rhan. Wedi dweud hynny, gellid ystyried tir o eiddo'r Llywodraeth mewn ardaloedd sy'n ymgysylltu â'r broses leoli newydd.

62. Mae'r honiad a wnaed gan nifer o ymatebwyr bod daeareg Cumbria eisoes wedi'i 'phrofi' i fod yn anaddas, yn anghywir. O ran cynigion Nirex yn Longlands Farm, ynghyd â'r ymchwiliad cyhoeddus, nid oeddynt ond yn ymwneud â chynnig ar gyfer archwiliadau tanddaearol mewn perthynas â'r posibilrwydd o waredu un categori o wastraff (gwastraff lefel ganolig) mewn ardal gymharol fach o graig yn Longlands Farm. Mae nifer o gyrff, gan gynnwys CoRWM a Chymdeithas Ddaearegol Llundain wedi datgan wedyn, wrth gael eu holi gan Bartneriaeth MRWS Gorllewin Cumbria[9], nad ydynt yn ystyried bod digon o ddata ar gael i gadarnhau p'un a oes safleoedd addas yng ngorllewin Cumbria ai peidio ar gyfer gwaredu gwastraff ymbelydrol y DU. Yn hyn o beth, nid oes sail gadarn i drin Cumbria yn wahanol i ardaloedd eraill.

63. Cytunwn fod cael barn gan drydydd partïon annibynnol ynghylch daeareg a materion technegol eraill, drwy gydol y broses, yn rhan hanfodol o ennill ymddiriedaeth darpar gymunedau lleoli. Byddwn yn gweithredu mecanwaith i alluogi cymunedau, y datblygwr a'r Llywodraeth ei hun i gael barn trydydd partïon annibynnol ynghylch materion sensitif,

---

[7] http://bit.ly/1oW3tLh

[8] http://bit.ly/1jzeFhq

[9] Corff ymgynghorol a sefydlwyd i wneud argymhellion i Gynghorau Bwrdeistref Allerdale a Copeland a Chyngor Sir Cumbria ynghylch cymryd rhan neu beidio ym mhroses (flaenorol) y Llywodraeth ar gyfer lleoli CGD.

cymhleth neu ddadleuol yn ystod y broses leoli CGD. Trafodir hyn yn fanylach yn ymateb y Llywodraeth o dan Gwestiwn 3 ac yn y Papur Gwyn newydd.

64. Yn wreiddiol, cynigiodd yr ymgynghoriad y byddai Llywodraeth y DU yn cyhoeddi gwybodaeth sylfaenol ar ddaeareg ranbarthol, cyn unrhyw 'alwad' am wirfoddolwyr. Mae'r Papur Gwyn bellach yn nodi proses sy'n ymwneud â'r datblygwr yn rhoi ystyriaeth gychwynnol i ddaeareg ar lefel genedlaethol mewn perthynas â'r achos diogelwch dros CGD. Yn y cyfamser mae Cymdeithas Ddaearegol Prydain (BGS) wedi paratoi crynodebau, mewn Saesneg clir, o ddaeareg ranbarthol sylfaenol Lloegr, Cymru a Gogledd Iwerddon, yn seiliedig ar Ganllawiau Rhanbarthol mwy technegol. Bydd y crynodebau hyn bellach yn cael eu cyhoeddi gan y BGS fel rhan o'u gwaith ehangach o gyfathrebu'n well ynghylch daeareg y DU. Disgwylir i'r crynodebau fod yn ddefnyddiol yn fwy cyffredinol drwy helpu i roi gwybodaeth i'r cyhoedd mewn sawl maes, gan gynnwys nwy siâl a dal carbon (carbon capture) yn ogystal â gwaredu gwastraff ymbelydrol.

**Cwestiwn 5 - A gytunwch â'r dull hwn o gynllunio ar gyfer y cyfleuster gwaredu daearegol? Os ydych yn anghytuno, pa ddull gweithredu arall fyddech yn ei gynnig a pham?**

## Crynodeb o ymatebion i gwestiwn 5

65. Roedd tua hanner yr ymatebwyr i'r cwestiwn hwn yn cytuno neu'n cytuno'n rhannol â'r dull gweithredu arfaethedig mewn perthynas â chynllunio defnydd tir ar gyfer CGD yn Lloegr. Roedd lleiafrif yn anghytuno â'r cynigion.

66. Nododd ychydig o ymatebwyr ei bod yn glir y byddai CGD yn seilwaith cenedlaethol ei arwyddocâd – prosiect ar raddfa fawr sy'n hanfodol ar gyfer rheolaeth hirdymor gwastraff ymbelydrol actifedd uwch y DU – a'i fod felly'n briodol iddo ddod o dan y gyfundrefn gynllunio ar gyfer seilwaith cenedlaethol ei arwyddocâd o fewn Deddf Gynllunio 2008.

67. Codwyd pryderon gan ychydig o ymatebwyr ynghylch eithrio cynghorau sir rhag cael rôl gyfranogol yn y broses. Mewn rhai achosion, mae'n glir y gwnaed y pwynt hwn mewn perthynas â'r cynigion sy'n cael eu trafod yng nghyswllt cynllunio defnydd tir (gyda nifer o ymatebwyr yn nodi mai cynghorau sir sy'n gyfrifol am gynllunio ar gyfer gwastraff yn eu hardaloedd hwy). Mewn achosion eraill, roedd peth camddealltwriaeth ynghylch y gwahaniaeth rhwng y drefn galluogi partneriaethau lleol i benderfynu mynd ar drywydd cyfleuster neu beidio ar y naill law a'r broses cynllunio defnydd tir ar y llall.

68. Mynegodd ychydig o ymatebwyr y byddai gwrthdrawiad buddiannau pe bai'r penderfyniad terfynol ynghylch rhoi caniatâd datblygu neu beidio yn cael ei roi yn nwylo'r Ysgrifennydd Gwladol dros Ynni. Roeddent o'r farn fod budd i'r Ysgrifennydd Gwladol dros Ynni mewn cyflenwi CGD ac y gallai hynny effeithio ar ei allu i fod yn ddiduedd wrth ddod i benderfyniad terfynol ynghylch caniatâd datblygu.

69. Lleisiodd ychydig o ymatebwyr gefnogaeth gyffredinol i'r dull gweithredu arfaethedig ar gyfer cynllunio defnydd tir, cyn belled â bod yr Arfarniad Cynaliadwyedd arfaethedig o Ddatganiad Polisi Cenedlaethol generig yn ystyried dewisiadau eraill heblaw'r polisi gwaredu daearegol.

70. Roedd awydd cyffredinol i'r dull gweithredu ar gyfer cynllunio defnydd tir gyd-fynd â phroses leoli oedd yn seiliedig ar wirfoddoliaeth. Yn y cyswllt hwn, roedd ychydig o ymatebwyr hefyd yn dadlau, tra gellid gwneud cais am ganiatâd datblygu ar gyfer CGD o dan y gyfundrefn gynllunio ar gyfer seilwaith cenedlaethol ei arwyddocâd,y dylid delio ag archwiliadau cyn datblygu CGD drwy'r system gynllunio defnydd tir leol. Awgrymodd yr ymatebwyr y byddai hyn yn fwy democrataidd yng nghyd-destun proses leoli wirfoddol, y

byddai awdurdodau cynllunio lleol mewn sefyllfa i ddefnyddio gwybodaeth leol fanwl ar gyfer dod i benderfyniad, eu bod yn cynrychioli'r boblogaeth a effeithir yn fwy uniongyrchol, a bod ganddynt y profiad angenrheidiol i allu penderfynu ceisiadau o'r fath.

## Ymateb y Llywodraeth

71. Cytunwn â'r farn bod CGD yn seilwaith cenedlaethol ei arwyddocad. Yn y Papur Gwyn newydd, rydym wedi nodi'r bwriad i ddod â CGD yn Lloegr a Chymru o fewn y diffiniad o Brosiect Seilwaith Cenedlaethol ei Arwyddocâd, a thrwy hynny gweithredir y gyfundrefn gynllunio a nodir yn Neddf Gynllunio 2008 ar gyfer datlbygu prosiect o'r fath yn Lloegr.

72. O ran archwiliadau tyllau turio ar yr wyneb sy'n angenrheidiol i ganfod nodweddion safleoedd posibl ac asesu ar gyfer CGD yn Lloegr, bydd y rhain hefyd yn dod o fewn y diffiniad o seilwaith cenedlaethol ei arwyddocâd yn eu rhinwedd eu hunain. Mae hyn oherwydd eu bod yn rhan annatod o'r broses o ddatblygu CGD a dylid eu trin felly. Bydd yn sicrhau y bydd y rhaglen waith hon yn cael ei hystyried gan yr Arolygiaeth Gynllunio, ac y bydd yn agored i'r un trefniadau ar gyfer ymgynghori lleol ag yn achos y CGD ei hun.

73. Awgrymodd nifer o ymatebion i'r ymgynghoriad bod hyn yn cael ei gynnig er mwyn i'r Llywodraeth 'wthio' cais drwodd ar gyfer caniatâd datblygu. Rydym o'r farn mai un o fanteision dod â CGD yn Lloegr (ynghyd â'r archwiliadau tyllau turio a wneir cyn datblygu CGD yn Lloegr) o fewn y gyfundrefn gynllunio ar gyfer seilwaith cenedlaethol ei arwyddocâd yw y bydd y ceisiadau hyn yn destun gofynion penodol o ran ymgynghori lleol ac ystyried sylwadau lleol. Rydym wedi ystyried adborth a dderbyniwyd drwy'r ymgynghoriad ynghylch pwysigrwydd meithrin cefnogaeth leol drwy broses leoli ddiwygiedig. Mae'r gyfundrefn gynllunio ar gyfer seilwaith cenedlaethol ei arwyddocâd yn cynnwys darpariaethau clir ar gyfer ymrwymo awdurdodau lleol (y rheiny y mae ganddynt ddatblygiad yn digwydd yn eu hardal ynghyd ag awdurdodau cyfagos). Ni chredwn, drwy fabwysiadu'r dull gweithredu hwn, bod unrhyw gynghorau'n cael eu 'heithrio' rhag chwarae rôl gyfranogol yn y prosesau cynllunio defnydd tir - mae hyn yn cael ei warantu ar eu cyfer.

74. Nododd ychydig o ymatebion i'r ymgynghoriad, mewn perthynas â chaniatâd cynllunio ar gyfer archwiliadau geoffisegol nad ydynt yn fewnwthiol (yn hytrach nag archwiliadau tyllau turio, ac sy'n debygol o gael eu gwneud o'u blaen), y dylid ceisio hyn drwy'r systemau cynllunio lleol. Nid oedd yr ymgynghoriad yn nodi'r union ddull gweithredu ar gyfer yr archwiliadau hyn (y gellid eu cynnal i roi gwybodaeth wrth ymgysylltu'n gynnar â chymunedau lleol). Ar ôl ystyried ymatebion i'r ymgynghoriad, cytunwn y dylid ceisio'r rhain drwy'r systemau cynllunio lleol ac rydym wedi gwneud darpariaeth ar gyfer hyn yn y Papur Gwyn newydd.

75. Anghytunwn â'r farn y byddai gwrthdaro buddiannau pe bai'r penderfyniad terfynol ynghylch rhoi caniatâd datblygu neu beidio yn nwylo'r Ysgrifennydd Gwladol. Mae'r dull gweithredu hwn yn cyd-fynd â'r modd y mae ceisiadau am ganiatâd datblygu yn cael eu penderfynu mewn perthynas â phrosiectau seilwaith eraill, a byddai'r penderfyniad yn cael ei wneud yng nghyd-destun proses glir ar gyfer gwneud penderfyniadau, sy'n cynnwys yr Arolygiaeth Gynllunio'n cynnal archwiliad gwrthrychol o geisiadau ac yn rhoi cyngor. Mae rôl yr Ysgrifennydd Gwladol o ran gwneud penderfyniadau yn y broses o roi caniatâd datblygu yn un lled-farnwrol, ac mae'r broses a weithredir o fewn y Llywodraeth yn parchu'r gwahanol rolau rhwng y lluniwr polisïau a'r penderfynwr lled-farnwrol. Mae

DECC wedi cyhoeddi canllawiau priodoldeb wrth ddelio â cheisiadau ar gyfer caniatâd datblygu[10].

76. Roedd nifer o ymatebwyr yn gefnogol i'r dull gweithredu arfaethedig, cyn belled â bod yr Arfarniad Cynaliadwyedd arfaethedig o'r Datganiad Polisi Cenedlaethol generig ar gyfer Lloegr yn ystyried dewisiadau eraill yn lle'r polisi gwaredu daearegol (hynny yw, dulliau eraill o reoli gwastraff ymbelydrol actifedd uwch y DU yn y tymor hir). Mae'r Papur Gwyn newydd yn nodi'r polisi, a'r sail resymegol, ar gyfer gwaredu daearegol fel y modd y bydd gwastraff ymbelydrol actifedd uwch yn cael ei reoli yn y tymor hir. Fel yr amlinellwyd yn ymateb y Llywodraeth i Gwestiwn 8, yn unol â gofynion Deddf Gynllunio 2008, byddwn yn cynnal Arfarniad Cynaliadwyedd o'r Datganiad Polisi Cenedlaethol generig ar gyfer CGD yn Lloegr. Cynllunnir yr Arfarniad Cynaliadwyedd i gyflawni gofynion y Gyfarwyddeb Asesu Amgylcheddol Strategol[11], sy'n ystyried dulliau eraill o gyflawni gwaredu daearegol (hynny yw, dewisiadau eraill yn lle'r bwriad i weithredu polisi drwy Ddatganiad Polisi Cenedlaethol).

77. Roedd adborth o'r ymgynghoriad yn nodi bod rhaid i'r dull gweithredu ar gyfer cynllunio defnydd tir gyd-fynd â phroses leoli sy'n cynnwys gweithio â chymunedau, ac y dylai Datganiad Polisi Cenedlaethol ar gyfer Lloegr fod ar gael yn gynnar. Mae hyn wedi helpu i lywio'r broses a nodir yn y Papur Gwyn newydd. Bwriadwn ymgynghori ynghylch y Datganiad Polisi Cenedlaethol arfaethedig cyn dechrau unrhyw drafodaethau ffurfiol rhwng cymunedau a'r datblygwr. Rydym wedi ymrwymo i sicrhau bod y Datganiad Polisi Cenedlaethol ar gael mor fuan ag y bo'n ymarferol, er mwyn sicrhau bod cymaint o wybodaeth ar gael i gymunedau ag y bo modd.

**Cwestiwn 6 - A gytunwch â'r eglurhad hwn o'r rhestr ar gyfer gwaredu daearegol – a sut dylid cyfleu hyn i'r gymuned sydd wedi gwirfoddoli i leoli'r cyfleuster? Os ydych yn anghytuno, pa ddull gweithredu arall fyddech yn ei gynnig a pham?**

## Crynodeb o ymatebion i gwestiwn 6

78. Roedd barnau'n gymysg ynglŷn â'r dull gweithredu ar gyfer egluro a chyfathrebu'r rhestr (inventory) o wastraff gwaredu daearegol, gyda niferoedd tebyg o ymatebwyr i'r cwestiwn hwn yn cytuno ac yn anghytuno. O'r rheiny oedd yn cytuno, roedd llawer o'r farn y byddai unrhyw gymuned sy'n ystyried gwirfoddoli i leoli CGD yn dymuno cael eglurhad o'r hyn y byddent yn ei dderbyn. O'r rheiny oedd yn anghytuno, roedd y mwyafrif yn erbyn cynnwys gwastraff o'r rhaglen adeiladu gorsafoedd niwclear newydd yn y rhestr (gweler isod), gydag eraill naill ai yn erbyn gwaredu daearegol o ran egwyddor, neu eisiau cael diffinio'r cysyniad o 'gymuned' cyn cyfathrebu mewn unrhyw fodd.

79. O'r rheiny oedd o blaid cael gwell eglurder ynglŷn â'r rhestr, nododd ychydig fod angen codi ymwybyddiaeth a chyflwyno'r rhestr mewn modd hawdd ei ddeall fel y gallai cymunedau ddeall yn iawn yr hyn y byddent yn gwirfoddoli ar ei gyfer. Awgrymodd ychydig o ymatebwyr hefyd y dylid cyflwyno'r rhestr yn nhermau peryglon, risgiau ac effeithiau gan gyfeirio at Fynegai Diogelwch a Niwed Amgylcheddol ('Safety and Environmental Detriment Index') ('SED Index') yr NDA fel offeryn asesu risgiau a pheryglon (crëwyd y mynegai SED i helpu i flaenoriaethu cyfleusterau ar gyfer eu datgomisiynu).

[10] http://bit.ly/1n9568Q

[11] Cyfarwyddeb 2001/42/EC Senedd Ewrop a'r Cygnor ar 27 Mehefin 2001 ynghylch asesu effeithiau rhai cynlluniau a rhaglenni ar yr amgylchedd.

80. Cododd ychydig o ymatebwyr bryderon ynghylch cynnwys gwastraff o'r rhaglen adeiladu newydd yn y rhestr waelodlin, gan eu bod yn ystyried bod hyn yn groes i argymhelliad CoRWM[12], ac nad oedd ond yn cael ei wneud gan y Llywodraeth i gyfiawnhau'r rhaglen adeiladu newydd. Yn ogystal, roedd rhai o'r ymatebwyr yn pryderu y byddai'n anodd gwaredu'r gweddillion tanwydd o'r rhaglen adeiladu newydd oherwydd y modd y maent yn llosgi ar lefel uwch, y gweddillion tanwydd o ganlyniad yn cynhyrchu mwy o wres a hynny o bosibl yn golygu bod angen eu rhoi mewn storfa dros dro am gyfnod hirach cyn eu gwaredu.

81. Roedd ychydig o ymatebwyr yn pryderu ynghylch cynigion y gellid gwaredu gwastraff o dramor neu weinyddiaethau datganoledig mewn CGD. Roedd pryderon yn ymwneud â maint posibl ac ansicrwydd ynghylch mewnforion posibl i'r DU. Roedd rhai hefyd o'r farn, pe bai CGD yn cael ei adeiladu yn Lloegr, y dylai storio gwastraff o Loegr yn unig ac na ddylai dderbyn gwastraff o rannau eraill o'r DU.

82. Roedd ychydig o ymatebwyr yn pryderu ynghylch gwaredu gwastraff a defnyddiau y gellid eu hailddefnyddio neu eu hailgylchu, gan nodi, tra bod achos sylfaenol y DU yn ymwneud â rhoi gweddillion tanwydd niwclear sy'n deillio o raglen adeiladu newydd y DU mewn cyfleuster gwaredu daearegol, mae gwledydd eraill (Ffrainc er enghraifft) yn dal i ailbrosesu, a gall ailbrosesu fod yn fwy deniadol os yw pris wraniwm yn cynyddu neu os yw tanwydd ocsid cymysg (MOX) yn dod yn fasnachol hyfyw. Roeddynt yn cwestiynu a ellid, a sut y gellid, adfer defnyddiau o CGD pe canfyddid yn ddiweddarach eu bod yn asedau neu pe bai dull newydd yn cael ei ddyfeisio i leihau priodoleddau peryglus y gwastraff. Nododd ychydig o ymatebwyr hefyd ei bod yn bwysig fod cynhyrchwyr yn cymhwyso'r hierarchiaeth wastraff i leihau i'r eithaf y gwastraff sydd angen ei waredu, a phwysleisiwyd pwysigrwydd ymchwil a datblygu parhaus ym maes rheoli gwastraff ymbelydrol.

83. Roedd ychydig o ymatebwyr yn argymell defnyddio rhestr uchafswm (neu'r 'sefyllfa waethaf') yn lle gwaelodlin. Oherwydd yr ansicrwydd o ran maint y rhaglen adeiladu newydd a'r senarios posibl ar gyfer ailddefnyddio / ailgylchu gweddillion tanwydd a defnyddiau niwclear, roeddynt yn awgrymu y byddai o gymorth i roi sicrwydd i gymunedau na fyddai'r rhestr yn cynyddu. Fel arall, awgrymodd rhai y dylid defnyddio nifer o restrau amrywiol, yn seiliedig ar wahanol senarios, unwaith eto i ddangos sut allai'r senarios effeithio'r CGD yn gyffredinol ynghyd â'i effeithiau posibl. Cafwyd awgrymiadau hefyd y byddai angen cael proses agored a thryloyw yn ei lle i reoli unrhyw newidiadau i'r rhestr. Nododd rhai eraill bod y rhestr yn un o'r ystyriaethau allweddol o fewn yr achos diogelwch (y llall yw'r ffactorau daearegol). Gallai un rhestr sengl gyfyngu ar le y gellid lleoli CGD ac felly dylai'r Llywodraeth ystyried rhannu'r rhestr ac anelu i adeiladu mwy nag un CGD o'r cychwyn cyntaf.

84. Gan gysylltu'r cwestiwn hwn â chynigion eraill yn y ddogfen ymgynghori, awgrymodd ychydig o ymatebwyr y dylai'r rhestr o wastraff a gedwir mewn CGD gael ei chytuno â'r gymuned leoli, a'i chysylltu â buddion cymunedol.

## Ymateb y Llywodraeth

85. Cytunwn y dylid cyflwyno gwybodaeth ynglŷn â'r rhestr mewn modd mor glir a hawdd ei ddeall ag y bo modd. Mae'r Papur Gwyn newydd yn darparu'r wybodaeth ddiweddaraf am y rhestr, gan gynnwys gwell eglurhad yn y rhestr o statws gwastraff o orsafoedd pŵer niwclear newydd sydd i'w waredu. Tra'r ydym yn cefnogi cyflwyno gwybodaeth am beryglon, risgiau ac effeithiau fel rhan o'r wybodaeth a gyflwynir ynglŷn â'r rhestr,

[12] *Managing our Radioactive Waste Safely,* Argymhellion 2006 *CoRWM' i'r Llywodraeth (Dogfen700 CoRWM)* http://bit.ly/RE5dxh

ystyriwn mai datblygwr y CGD ddylai arwain ar hyn. Bydd y datblygwr, RWM, yn rheoli manylion y rhestr ac yn llunio'r achos diogelwch ac asesiadau o effeithiau amgylcheddol y cyfleuster.

86. Mewn ymateb i'r honiad bod cynnwys gwastraff o'r rhaglen adeiladu newydd yn y rhestr waredu yn mynd yn groes i argymhellion CoRWM, nodwn, yn 2006, nad oedd CoRWM wedi cymryd unrhyw safbwynt mewn perthynas â dymunoldeb cael gorsaf bŵer niwclear newydd neu fel arall. Yn hytrach, dywedasant, yn eu barn hwy, y dylid cyflwyno proses ar wahân i brofi a dilysu cynigion ar gyfer rheoli'r gwastraff o raglen adeiladu newydd pe bai rhaglen adeiladu newydd yn cael ei chyflwyno. Bu'r Llywodraeth wedyn, yn 2007, yn ymgynghori'n helaeth ynghylch y posibilrwydd o adeiladu gorsafoedd pŵer niwclear newydd, gan gynnwys ystyried rheoli gwastraff. Arweiniodd hyn at Bapur Gwyn 2008, *'Meeting the Energy Challenge'*, oedd yn nodi'r polisi ar gyfer rhaglen adeiladu gorsafoedd pŵer niwclear newydd. Yn dilyn hyn, bu'r Llywodraeth hefyd yn ymgynghori'n helaeth ynghylch Datganiad Polisi Cenedlaethol ar gyfer gorsafoedd pŵer niwclear newydd, gan gynnwys papurau penodol ar reoli gwastraff a fyddai'n codi o ddarpar orsafoedd pŵer niwclear newydd. Mewn datganiad ym Mawrth 2010, roedd CoRWM yn cydnabod *"new build wastes are being considered during the Managing Radioactive Waste Safely (MRWS) programme to implement geological disposal (Defra et al., 2008). As part of the voluntarism and partnership approach, potential host communities for a GDF for existing and committed wastes will be consulted about the inventory for disposal. The communities' discussions with Government about the inventory will cover new builds wastes, amongst other issues. Technical aspects of disposing of new build wastes in the same facility as existing and committed wastes will be explored by the NDA's Radioactive Waste Management Directorate (RWMD), as part of its work to implement geological disposal."* Bydd y Llywodraeth a'r datblygwr yn parhau i ymgysylltu â chymunedau ynghylch y rhestr waredu (gan gynnwys y rhestr o fathau o wastraff sydd bellach wedi'i diffinio'n gliriach) er mwyn sicrhau bod proses glir ar gyfer cytuno ar unrhyw newidiadau sylweddol i'r rhestr waredu yn cael ei datblygu.

87. Mewn ymateb i bryderon am wastraff o dramor yn cael ei waredu mewn CGD yn y DU, mae Llywodraeth y DU yn ailddatgan ei pholisi cyffredinol na ddylid mewnforio nac allforio gwastraff ymbelydrol o'r DU ac eithrio mewn amgylchiadau sydd wedi'u diffinio a'u cyfyngu'n arbennig, fel y diffinnir ym Mhapur Gorchymyn 2919 Adolygiad o Bolisi Rheoli Gwastraff Ymbelydrol ('Review of Radioactive Waste Management Policy'), ynghyd â Rheoliadau Cludo Gwastraff ymbelydrol a Gweddillion Tanwydd ar Draws Ffiniau 2008 ('Transfrontier Shipment of Radioactive Waste and Spent Fuel Regulations 2008'). Roedd dogfen ymgynghorol proses leoli CGD 2013 yn nodi'r amgylchiadau hyn, ond eithriadau fyddant. Bydd unrhyw wastraff sy'n dod yn rhan o'r rhestr waredu yn cael ei reoli'n briodol, bydd angen i'r datblygwr ddangos bod gwaredu unrhyw wastraff mewn CGD yn ddiogel ac yn dderbyniol yn amgylcheddol, a bydd hyn yn destun craffu gan y rheoleiddwyr annibynnol. Ni fydd y rhestr waredu yn cynnwys gwastraff o safleoedd yn yr Alban sy'n dod o dan Bolisi Gwastraff Actifedd Uwch yr Alban ('Scottish Higher Activity Waste Policy').

88. O ran ymatebwyr sy'n cynnig y dylid defnyddio'r hierarchaeth wastraff, mae'r Llywodraeth a'r rheoleiddwyr niwclear annibynnol yn disgwyl y bydd holl ddefnyddwyr defnyddiau ymbelydrol yn defnyddio'r hierarchaeth wastraff ar gyfer y gwastraff a gynhyrchir ganddynt, ac yn lleihau faint o wastraff a defnyddiau y mae angen eu gwaredu. Bydd y CGD yn gyfleuster a gynllunnir ar gyfer gwaredu terfynol. Hwyrach y bydd adfer y gwastraff yn bosibl, ond nid ydym yn disgwyl y byddai unrhyw beth yn cael ei adfer i'w ailddefnyddio neu ei ailgylchu wedi iddo gael ei roi mewn CGD.

89. Rydym hefyd yn cefnogi cynnal gwaith ymchwil a datblygu parhaus i mewn i wastraff ymbelydrol, trwy gydol cylch oes creu gwastraff, a'i storio a'i waredu. Yn 2013, cyhoeddodd y Llywodraeth y ddogfen 'Nuclear Industrial Strategy – The UK's Nuclear Future'[13], sy'n cynnwys ymateb y Llywodraeth i adroddiad Tŷ'r Arglwyddi yn 2011 ar alluoedd ymchwil a datblygu y DU ym maes niwclear ynghyd ag argymhellion Bwrdd Ymgynghorol yr 'Ad-Hoc Nuclear Research and Development (R&D) Advisory Board'. Sefydlwyd y Bwrdd Ymgynghorol i oruchwylio gwaith ar ddatganiad gweledigaeth diwydiannol, map ymchwil a datblygu, adolygiad o'r maes ymchwil a datblygu, ynghyd â strategaeth ynni niwclear hirdymor, y maent oll yn cynnwys rheoli gwastraff ymbelydrol.

90. Ar ôl ystyried y cynnig ar gyfer rhestr 'uchafswm' er mwyn rhoi sicrwydd i gymunedau na fydd y rhestr yn cynyddu, darparwyd yn y Papur Gwyn newydd restr o wastraff a'r mathau o wastraff y gellir eu cynnwys ar restr waredu mewn unrhyw CGD, er mwyn rhoi darlun mor glir ag y bo modd i gymunedau o'r gwastraff a'r defnyddiau y mae angen eu hystyried. Yn arbennig, mae'r rhestr hon o wastraff a mathau o ddefnyddiau yn cynnwys maint diffiniedig o weddillion tanwydd a gwastraff lefel ganolig (ILW) o raglen adeiladu gorsafoedd pŵer niwclear newydd a fydd yn dod o dan y broses leoli CGD (o ran yr hyn sy'n codi o gynlluniau a gyhoeddwyd hyd yma). Dyhead y diwydiant ar hyn o bryd o ran datblygiadau niwclear newydd yw targed trydanol o 16 gigawat. Nid targed gan y Llywodraeth yw hwn ac mae Llywodraeth y DU yn cefnogi diwydiant i gyflwyno cynlluniau ar gyfer datblygu pellach yn y dyfodol. Pe digwyddai hynny, byddai Llywodraeth y DU angen trafod a chytuno ar waredu'r gweddillion tanwydd a'r gwastraff lefel ganolig ychwanegol hyn gydag unrhyw gymunedau sy'n cymryd rhan yn y broses o leoli CGD, gyda golwg naill ai ar ehangu unrhyw gyfleuster presennol neu geisio cyfleusterau eraill.

91. Fel y nodir uchod, bydd y datblygwr yn gyfrifol am reoli manylion y rhestr waredu yn barhaus, ynghyd â'i chyflwyno mewn modd sy'n hawdd ei deall. Yn gysylltiedig â hyn, gall y datblygwr ddymuno cyflwyno senarios o ran pryd y byddai gwahanol ffrydiau gwastraff yn cael eu gwaredu drwy gydol oes weithredu CGD.

92. Byddai'n well gennym geisio rheoli'r rhestr waredu mewn un CGD, pe gellid datblygu'r CGD hwnnw i ddarparu modd diogel o ynysu'r holl wastraff angenrheidiol, gan leihau costau a lleihau'r effeithiau ar yr amgylchedd hefyd mae'n debyg. Nid oes rheswm technegol pam na ellir datblygu un CGD i reoli'r rhestr waredu - mae'n dibynnu'n bennaf ar ganfod safle tanddaearol sy'n ddigon mawr, mewn ardal sy'n barod i leoli CGD. Oherwydd yr ansicrwydd hwn, nid yw'r Papur Gwyn newydd yn diystyru datblygu mwy nag un CGD.

93. Ni chredwn fod unrhyw resymau cryf dros berthnasu swm y buddsoddiad cymunedol i faint y gwastraff (neu ei gynnwys ymbelydrol) yn y rhestr waredu. Bydd angen dangos y gellir gwaredu'r hyn sydd ar y rhestr mewn modd sy'n ddiogel ac yn dderbyniol yn amgylcheddol, o ran cludiant, gweithredu broses waredu a chau'r storfa wedyn, beth bynnag fo'i maint.

**Cwestiwn 7 - A gytunwch â'r dull gweithredu arfaethedig ar gyfer buddiannau cymunedol cysylltiedig â CGD? Os ydych yn anghytuno, pa ddull gweithredu arall fyddech yn ei gynnig a pham?**

[13] http://bit.ly/1nNqwIc

## Crynodeb o'r ymatebion i gwestiwn 7

94. Roedd y mwyafrif o'r ymatebwyr i'r cwestiwn hwn yn anghytuno â'r dull gweithredu arfaethedig mewn perthynas â buddion cymunedol a gyflwynwyd yn y ddogfen ymgynghorol.

95. Roedd rhai ymatebwyr yn pryderu fod darparu buddion cymunedol gan y Llywodraeth yn fodd o lwgrwobrwyo. Roedd ychydig o ymatebwyr yn pryderu y gallai hyn olygu bod ardaloedd sy'n ddifreintiedig o ran eu heconomi yn gweld lleoli CGD fel eu hunig fodd o sicrhau ffyniant i'r dyfodol. Fodd bynnag, teimlai ychydig o ymatebwyr bod buddion cymunedol yn adlewyrchiad pwysig o'r gwasanaeth y byddai'r gymuned leoli yn ei chyflawni ar gyfer y wlad gyfan, a nodwyd ganddynt fod buddion cymunedol yn rhan dderbyniol o'r broses gynllunio.

96. Roedd ychydig o ymatebwyr yn dadlau y dylai unrhyw gronfa fuddion cymunedol gael ei gweinyddu'n annibynnol ac na ddylid ei rhoi dan reolaeth awdurdodau lleol. Roedd rhai ymatebwyr yn pryderu y byddai awdurdodau lleol yn defnyddio buddion o'r fath i gymryd lle cyllidebau oedd wedi'u torri'n ddiweddar, yn hytrach na darparu buddion ychwanegol i'r gymuned. I'r gwrthwyneb, teimlodd ychydig o ymatebwyr, gan y byddai effaith CGD yn eang iawn, y dylid dosbarthu unrhyw fuddion yn eang ar draws pob ardal a effeithir, ac y dylai'r awdurdod (awdurdodau) lleol perthnasol weinyddu hyn. Fodd bynnag, teimlodd ychydig o ymatebwyr mai dim ond y gymuned leoli ddylai dderbyn y buddion gan mai hwy fyddai'n cael eu heffeithio fwyaf.

97. Roedd rhai ymatebwyr yn gofyn am eglurhad pellach ar y cynigion, gan gynnwys y diffiniad o 'gymuned leoli'. Gofynnwyd am ragor o fanylion ynghylch y mecanwaith ar gyfer dosbarthu arian, beth oedd ei bwrpas a phwy fyddai'n cael budd, yn ogystal â pha fath o fudd fyddai ar gael yn union, a faint ohono. Nodwyd bod angen eglurder er mwyn ennyn ymddiriedaeth. Nododd ychydig o ymatebwyr bod y CGD yn brosiect hirdymor ac felly y dylid cynllunio buddion i adlewyrchu ei hirhoedledd a'i effaith ar genedlaethau i'r dyfodol.

98. Roedd ychydig o'r ymatebwyr yn cefnogi dosbarthu arian yn gynnar a diogelu'r gronfa mewn deddfwriaeth. Croesawyd yr eglurder o ran cadw arian ymgysylltu ar wahân gan ychydig o'r ymatebwyr. Roedd ychydig o ymatebwyr yn pryderu ynghylch y posibilrwydd y byddai'r Llywodraeth yn ceisio adennill y buddion o gronfa gymunedol, pe bai cymuned yn tynnu'n ôl o'r broses. Gofynnwyd am eglurder ynghylch sut yr oedd y Llywodraeth yn rhagweld y byddai hyn yn gweithio, yn enwedig o ran sut y byddai cymunedau'n cael eu heffeithio.

99. Dywedodd ychydig o'r ymatebwyr y dylid adnabod y gymuned leoli cyn trafod unrhyw fuddion. Cysylltwyd hyn â chwestiynau ynghylch a oedd angen pecyn buddion cymunedol o gwbl, a oedd y CGD yn ddiogel ac a fyddai'n dod â swyddi i ardaloedd ynghyd â buddion cymdeithasol-economaidd eraill.

100. Codwyd y mater o falltod cynllunio (effeithiau posibl ar brisiau eiddo) gan ychydig o ymatebwyr. Yn gysylltiedig â hyn, roedd ychydig o ymatebwyr yn pryderu ynghylch y posibilrwydd o golli incwm busnes o dwristiaeth ynghyd â busnesau'n gadael yr ardal oherwydd lleoli CGD. Cafwyd rhai awgrymiadau y dylid defnyddio'r gronfa fuddion cymunedol i fynd i'r afael â hyn.

101. Roedd rhai ymatebwyr wedi ateb yn benodol mewn perthynas â'r broses flaenorol yn Cumbria ynghyd â'i goblygiadau pe bai ystyriaeth bellach yn cael ei rhoi i leoli CGD yn Cumbria. Yn ogystal, mynegwyd pryderon gan rai ynghylch y modd yr oedd ardaloedd yng nghyffiniau Sellafield wedi cael eu heffeithio dros y blynyddoedd.

## Ymateb y Llywodraeth

102. Rydym o'r farn fd buddion cymunedol yn agwedd bwysig ar y broses leoli CGD, ac yn cytuno â'r ymatebwyr hynny oedd yn teimlo y byddai buddion cymunedol yn adlewyrchiad o'r gwasanaeth y byddai cymuned yn ei gyflawni er lles y wlad gyfan, a bod buddion cymunedol yn rhan dderbyniol o'r broses gynllunio.

103. Mae buddion cymunedol yn ychwanegol i'r arian a ddarperir gan y Llywodraeth i gwrdd â chostau uniongyrchol ac angenrheidiol unrhyw waith ymgysylltu cymunedol yn ystod y broses leoli ('arian ymgysylltu'), ac yn ychwanegol i unrhyw daliadau y mae eu hangen gan y datblygwr fel rhan o'r broses gynllunio (i liniaru effeithiau penodol y datblygiad).

104. Mae hyn yn adlewyrchu argymhellion gwreiddiol CoRWM i'r Llywodraeth yn 2006, oedd yn dweud *"Willingness to participate should be supported by the provision of community packages that are designed both to facilitate participation in the short term and to ensure that a radioactive waste facility is acceptable to the host community in the long term. Participation should be based on the expectation that the well-being of the community will be enhanced."*

105. Mae atebion a dderbyniwyd i'r cwestiwn hwn wedi helpu i lywio'r dull newydd o gyfathrebu'r materion hyn – yn bennaf oll drwy ymateb i'r neges y gall rhai gamddehongli 'buddion cymunedol' fel 'llwgrwobrwyon' gan y Llywodraeth i gael cymunedau i dderbyn CGD.

106. Bwriadwn fod yn gliriach yn y dyfodol mai 'buddsoddiad cymunedol' yw'r arian hwn, sy'n adlewyrchiad mwy cywir o bwrpas a bwriad yr arian dan sylw. Nod buddsoddiad cymunedol yw sicrhau cymaint o fuddion â phosibl i gymunedau, gan gefnogi datblygiad cynlluniau lleol sy'n helpu i wella ansawdd bywyd i bobl leol. Y mae hefyd yn ymwneud ag angori buddion hanfodol CGD, yr amcangyfrifir hwy i fod yn tua £2bn (wedi'i ddisgowntio) yn nhermau swyddi, seilwaith, adfywio lleol a chadwyni cyflenwi. Ein barn ni yw y bydd cynrychiolaeth gymunedol briodol yn galluogi cymuned i bennu ar beth yn union y bydd y buddsoddiad cymunedol yn cael ei wario, gan alluogi canlyniadau cynnar, gweladwy a chadarnhaol ar gyfer eu hardal, a chyda'r nod o feithrin hyder yn y broses leol, ac yn amcanion cadarnhaol y Llywodraeth a'r datblygwr.

107. Cytunwn fod darparu gwell eglurhad o ran maint y buddsoddiad cymunedol, a sut y bydd hwn yn cael ei weinyddu, yn helpu i ennyn ymddiriedaeth yn y broses leoli. Gwnaed darpariaeth gennym ar gyfer hyn yn y Papur Gwyn, sy'n nodi'r gwahaniaeth rhwng buddion hanfodol lleoli CGD, arian i liniaru effeithiau datblygu, ynghyd â'r arian buddsoddi ychwanegol a ddarperir i helpu i sicrhau'r buddion economaidd sylweddol gorau sy'n hanfodol ar gyfer lleoli prosiect seilwaith cenedlaethol ei arwyddocâd. Er mwyn sicrhau mwy o eglurder ynghylch graddfa gyffredinol y buddsoddiad cymunedol ychwanegol, mae'r Papur Gwyn newydd yn nodi y bydd yn sylweddol - yn cymharu â phrofiad rhyngwladol, ac yn gallu cynhyrchu buddion sy'n pontio pob cenhedlaeth o fewn cymuned sy'n lleoli CGD.

108. Nodwn y gwahanol farnau ynghylch sut y dylid gweinyddu unrhyw gronfa fuddsoddiad cymunedol – yn nhermau'r corff (neu'r cyrff) sy'n gyfrifol am wneud hynny, a hefyd ardal ddaearyddol unrhyw arian buddsoddi. Fel yn achos cynrychiolaeth gymunedol, rydym yn cydnabod bod hwn yn gwestiwn cymhleth sy'n hanfodol bwysig. Ein barn yw bod angen datblygu'r ateb ar y cyd â chymunedau ac arbenigwyr annibynnol. Rydym felly wedi penderfynu rhoi ystyriaeth bellach i'r cwestiwn manwl o fuddsoddiad cymunedol, ac i gael ein llywio gan argymhellion arbenigwyr annibynnol fel y mae'n datblygu. Yn y Papur Gwyn, rydym wedi nodi sut y bydd y gwaith hwn yn cael ei gyflawni ynghyd â'r materion penodol y bydd y gweithgor cynrychiolaeth gymunedol yn eu hystyried mewn perthynas â hyn.

109. Wedi dweud hynny, cytunwn â nifer o bwyntiau manwl o egwyddor a godwyd gan ymatebwyr i'r ymgynghoriad, ac rydym wedi eu nodi fel egwyddorion arweiniol yn y Papur Gwyn newydd. Y cyntaf yw y bydd buddsoddiad cymunedol ar gael yn gynnar yn y broses leoli - i gefnogi datblygiad cymunedau'n sy'n ymgysylltu â'r broses mewn modd adeiladol er mwyn canfod ateb parhaus ar gyfer gwaredu gwastraff ymbelydrol actifedd uwch y DU. Mae'r Papur Gwyn newydd yn darparu ar gyfer sicrhau y bydd arian ar gael yn gynnar i gymunedau sy'n ymgysylltu â'r broses leoli ar gyfer CGD mewn modd adeiladol, ac rydym wedi rhoi syniad o raddfa'r buddsoddiad: hyd at filiwn o bunnoedd (£1m) y flwyddyn ar gyfer bob cymuned sy'n cymryd rhan yn y cyfnodau cynnar, yn cynyddu i ddwy filiwn a hanner (£2.5m) pe bai archwiliadau tyllau turio'n dechrau. Yr ail bwynt yw bod y Papur Gwyn newydd yn egluro y byddai arian buddsoddi cynnar yn cael ei gadw gan y gymuned pe na fyddid yn bwrw mlaen â sefydlu CGD yn yr ardal dan sylw.

110. Mewn ymateb i bryderon a fynegwyd gan nifer o ymatebwyr ynghylch effeithiau negyddol posibl datblygiad CGD (fel effeithiau ar dwristiaeth neu brisiau tai) a godwyd gan nifer o ymatebwyr, ein barn ni yw y dylai effeithiau o'r fath - pe baent yn codi - gael eu lliniaru drwy'r rhwymedigaethau cynllunio o dan adran 106 o Ddeddf Cynllunio Gwlad a Thref 1990 (a elwir yn aml yn gytundebau adran106). Nid dyma yw pwrpas y buddsoddiad ychwanegol mae'r Llywodraeth wedi cytuno i'w ddarparu.

**Cwestiwn 8 - A gytunwch â'r dull gweithredu arfaethedig o fynd i'r afael â'r effeithiau cymdeithasol-economaidd ac amgylcheddol a allai ddeillio o leoli CGD? Os ydych yn anghytuno, pa ddull gweithredu arall fyddech yn ei gynnig a pham?**

### Crynodeb o'r ymatebion i gwestiwn 8

111. Roedd mwy o ymatebwyr i'r cwestiwn hwn yn cytuno neu'n cytuno'n rhannol nag a oedd yn anghytuno â'r dull gweithredu arfaethedig ar gyfer mynd i'r afael â'r effeithiau cymdeithasol-economaidd ac amgylcheddol a all ddod yn sgil lleoli CGD. Fodd bynnag, nid oedd y mwyafrif o'r ymatebwyr yn glir ynghylch eu lefel o gefnogaeth i'r cynnig hwn, am resymau oedd yn cynnwys ymatebwyr ddim yn mynd i'r afael â'r cwestiwn yn uniongyrchol, neu yn canolbwyntio ar ddeunydd nad oedd o fewn cwmpas y cwestiwn (er enghraifft, gwrthwynebiad i waredu daearegol neu i bŵer niwclear).

112. Roedd ychydig o ymatebwyr yn benodol yn cefnogi darparu gwybodaeth yn gynt o fewn y broses leoli, gan ddadlau y byddai hyn yn golygu y gallent ymgysylltu'n gynt ynghylch y materion allweddol ac y byddai'n helpu cymunedau yn eu trafodaethau. Roedd rhai ymatebwyr yn pwysleisio pwysigrwydd darparu gwybodaeth gytbwys, ddiduedd i gymunedau yn seiliedig ar dystiolaeth, sy'n nodi'r effeithiau negyddol a chadarnhaol yn glir.

113. Mynegodd rhai ymatebwyr y farn y dylai ardaloedd a ddynodir yn genedlaethol neu sy'n sensitif yn amgylcheddol (er enghraifft Parciau Cenedlaethol ac Ardaloedd o Harddwch Neilltuol Eithriadol) gael eu heithrio o'r broses leoli. Yng nghyswllt hyn, mynegodd ychydig o ymatebwyr y farn y dylid mynd i'r afael ag ystyriaethau cymdeithasol-economaidd ac amgylcheddol ar wahân. Roedd y farn hon yn deillio o bryderon y gallai materion economaidd gael blaenoriaeth dros faterion amgylcheddol.

114. Mynegodd rhai ymatebwyr y farn y dylid darparu gwybodaeth am asesiadau gan gorff (neu gyrff) annibynnol, ac nid gan Gyfarwyddiaeth Rheoli Gwastraff Ymbelydrol yr Awdurdod Datgomisiynu Niwclear, er mwyn sicrhau didueddrwydd ac ennyn ymddiriedaeth yn y wybodaeth. Awgrymodd rhai ymatebwyr y dylid adolygu'r asesiadau'n annibynnol er mwyn meithrin ymddiriedaeth.

## Ymateb y Llywodraeth

115. Cytunwn y byddai darparu gwybodaeth ynghylch effeithiau cymdeithasol-economaidd ac amgylcheddol posibl yn gynt yn helpu i gefnogi cymunedau sy’n chwarae rhan yn y broses leoli, ac mae hyn wedi llywio ein dull gweithredu mewn perthynas â chynllunio defnydd tir (a ddisgrifir o dan ymateb y Llywodraeth i gwestiwn 5, ac yn y Papur Gwyn newydd).

116. Cytunwn hefyd ei bod yn bwysig i’r dystiolaeth a ddarperir i’r cymunedau fod yn gytbwys ac yn ddiduedd. Dyma’r rheswm pam mae’r Papur Gwyn newydd yn darparu ar gyfer sefydlu mecanwaith ar gyfer cymunedau (yn ogystal â’r Llywodraeth a’r datblygwr) er mwyn iddynt gal cyngor annibynnol gan drydydd parti ynghylch materion cymhleth, sensitif neu ddadleuol neu ddarnau o wybodaeth yn ystod gweithredu’r broses leoli.

117. Nodwn y bydd unrhyw asesiadau a wneir gan y datblygwr, neu gan gontractwyr trydydd parti, yn destun craffu ac adolygu gan y rheoleiddwyr annibynnol, a fydd yn ymgyngoreion statudol ar gyfer y prosesau cynllunio ac asesu. Ystyriwn y dylai hyn helpu i ennyn ymddiriedaeth yn y wybodaeth - ond y dylid cyfathrebu’n fwy effeithiol â’r cyhoedd ynghylch y trefniadau craffu hyn. Mewn ffurf weladwy, rydym wedi nodi yn y Papur Gwyn yr amryw rolau a chyfrifoldebau mewn perthynas â chyflawni gwaredu daearegol, er mwyn darparu mwy o eglurder. Ystyriwn fod hwn yn fater pwysig y bydd angen i’r datblygwr gadw mewn cof wrth fynd ymlaen.

118. Mewn ymateb i’r ymatebwyr hynny oedd y dymuno diystyru ardaloedd gwarchodedig, fel Parciau Cenedlaethol, o fewn y broses leoli, ein barn yw bod yr ardaloedd hyn wedi’u dynodi oherwydd y nodweddion gwerthfawr ar yr wyneb na fyddai’n cael eu heffeithio gan ddatblygiad yn ddwfn dan y ddaear. Hwyrach bod materion i’w hystyried o ran y posibilrwydd o effeithiau ar gyfleusterau ar yr wyneb, ond credwn mai’r ffordd orau o fynd i’r afael â’r rhain yw trwy benderfyniadau lleol ar sail gwybodaeth benodol fel y daw i’r fei, yn hytrach na thrwy eu heithrio’n gyffredinol, o’r brig i lawr, o’r cychwyn cyntaf. Nodwn nad oes unrhyw ragdybiaeth ar hyn o bryd yn erbyn datblygu mewn Parciau Cenedlaethol yn gyffredinol.

### Cwestiwn 9 - A oes gennych chi unrhyw sylwadau eraill?

## Crynodeb o’r ymatebion i gwestiwn 9

119. O fewn ymatebion penodol i’r cwestiwn hwn (ac yn y deunydd a gyflwynwyd i DECC nad oedd yn ceisio ateb cwestiynau’r ymgynghoriad, a nodwyd felly fel ‘sylwadau eraill’ yn y cyd-destun hwn) mynegwyd ystod eang o farnau a chyfeiriwyd at bob math o dystiolaeth.

120. Roedd cyfran fawr o ymatebwyr yn canolbwyntio ar faterion lleol oedd y tu hwnt i gwmpas ymgynghoriad ar broses genedlaethol (yn enwedig mewn perthynas â Cumbria), gyda nifer debyg o ymatebwyr yn gwneud y pwynt penodol y dylai unrhyw broses leoli genedlaethol ddiwygiedig eithrio Cumbria.

121. Cymerodd nifer o ymatebwyr y cyfle i amlygu materion oedd yn ymwneud â chwestiynau eraill yr ymgynghoriad - er enghraifft, galw am sgrinio daearegol i ganfod safleoedd, yr angen am gyfathrebu clir, dadlau dros rôl benderfynu ar gyfer cynghorau sir mewn ardaloedd dwy haen yn Lloegr, pwysigrwydd ymgynghori’n lleol ac y dylid eithrio ardaloedd sy’n sensitif yn amgylcheddol o unrhyw broses leoli. Lle codwyd y materion hyn mewn ymateb i gwestiwn 9, fe gynhwyswyd y materion hyn o fewn crynodebau’r cwestiynau perthnasol.

122. Trafododd nifer o ymatebwyr faterion eraill nad oeddynt o fewn cwmpas yr ymgynghoriad, fel eu gwrthwynebiad i bolisi'r Llywodraeth ar waredu daearegol a / neu adeiladu gorsafoedd pŵer niwclear newydd.

## Ymateb y Llywodraeth

123. O ran yr ymatebion i bwyntiau o sylwedd yn yr ymatebion i Gwestion 9, aethpwyd i'r afael â hwy naill ai o fewn ymatebion y Llywodraeth o dan y cwestiynau blaenorol, neu ystyriwyd eu bod y tu hwnt i gwmpas yr ymgynghoriad hwn.

© Hawlfraint y Goron 2014
Yr Adran Ynni a Newid Hinsawdd
3 Whitehall Place
Llundain / London SW1A 2AW
www.gov.uk/decc
URN 14D/236